Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
13/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
03/03/2020

# **Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd:** Ymchwil archwiliol

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-188-9

Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd: Ymchwil archwiliol

Awduron: Fiona McAllister, Adam Blunt, Catrin Davies - Beaufort Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Beaufort Research. Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd: Ymchwil archwiliol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhof adroddiad GSR 13/2020.
Ar gael yn: https://llyw.cymru/adnewyddu-ymgysylltiad-democrataidd-ymchwil-archwiliol

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Nerys Owens
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: nerys.owens@llyw.cymru

## Tabl y cynnwys


Rhestr o'r ffigurau ........ 1
Rhestr termau ........ 2
1. Cefndir, nodau ac amcanion yr ymchwil ........ 3
2. Methodoleg ........ 7
3. Gwybodaeth, dealltwriaeth a chynrychiolaeth ........ 11
4. Agweddau tuag at bleidleisio ........ 22
5. Ymgysylltu dinesig ........ 36
6. Awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer rhoi anogaeth i ymgysylltu ........ 44
7. Casgliadau a goblygiadau ........ 62
Atodiad 1 – Y sampl cyfranogwyr a gyflawnwyd ........ 68


**Rhestr o'r ffigurau**


Ffigur 2.1: Crynodeb o'r sampl ........ 8
Ffigur 3.1: Rhestr o wasanaethau a chyfrifoldeb canfyddedig cynghorau lleol yn ôl oedran a grŵp economaidd gymdeithasol lle y bo'n briodol (pobl ifanc ac oedolion sydd wedi ymddieithrio) ........ 12
Ffigur 4.1: Rhwystrau a nodwyd i bleidleisio mewn etholiadau ........ 24
Ffigur 4.2: Rhwystrau a nodwyd i bleidleisio mewn etholiadau yn ôl oed y cyfranogwr a'r math o gyfranogwr ........ 25
Ffigur 6.1: Prif awgrymiadau'r cyfranogwyr ynghylch annog pobl i bleidleisio ac ymgysylltu dinesig ehangach ........ 44
Ffigur 6.2: Prif awgrymiadau'r cyfranogwyr ar gyfer sianeli darparu gwybodaeth ac ymgysylltu ........ 52
Ffigur 6.3: Awgrymiadau rhanddeiliaid ar gyfer ymadroddion i ystyried eu hosgoi ........ 60
Ffigur 7.1: Mynd i'r afael â rhwystr diffyg gwybodaeth a'r dryswch cysylltiedig ........ 63
Ffigur 7.2: Mynd i'r afael â'r rhwystr bod etholiadau a gwleidyddiaeth yn anneniadol ac yn ddiflas ........ 64
Ffigur 7.3: Mynd i'r afael â'r rhwystrau bod pleidleisio neu chwarae rhan ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth a materion ymddiriedaeth ........ 65
Ffigur 7.4: Mynd i'r afael â'r rhwystr bod pobl yn teimlo wedi'u datgysylltu ........ 66

## Rhestr termau

| **Acronym/Gair allweddol** | **Diffiniad** |
|---|---|
| Ffurflen Ymholiad Aelwyd | Ffurflen a anfonir at bob aelwyd ym Mhrydain Fawr i wirio a yw cofnodion cofrestru pleidleiswyr yn gywir. Fe'i trefnir yn lleol, gan gynghorau lleol fel arfer. Efallai y bydd rhai cynghorau'n anfon neges e-bost os yw cyfeiriad preswylydd ganddynt ac yna, os nad yw'r preswylydd yn ymateb erbyn dyddiad penodol, byddant yn postio ffurflen fel cam dilynol. |
| Y Senedd | Defnyddir yr enw i gyfeirio at brif adeilad cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. O 6 Mai 2020, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei ailenwi'n Senedd Cymru (yn Gymraeg) a Welsh Parliament (yn Saesneg). Mae'r sefydliad yn cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl; yn gwneud deddfau i Gymru; yn cytuno ar drethi Cymru ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. |
| Grŵp economaidd-gymdeithasol / SEG | System dosbarthu cymdeithasol a ddefnyddir mewn ymchwil i'r farchnad a sectorau eraill. Mae'r system ddosbarthu'n priodoli gradd (A, B, C1, C2, D, E) i bob aelwyd, sy'n seiliedig fel arfer ar alwedigaeth a statws cyflogaeth y Prif Enillydd Incwm. |

# 1. Cefndir, nodau ac amcanion yr ymchwil

**Cefndir yr ymchwil**

1.1 Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru am y 12 mis nesaf[1]. Roedd yn cynnwys darpariaethau i estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i bobl ifanc 16 ac 17 oed a dinasyddion tramor sy'n preswylio'n gyfreithlon yng Nghymru[2]. Mae'r cynnig deddfwriaethol hwn yn cyd-daro â chynlluniau i estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16 ac 17 oed ar gyfer etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru[3].

1.2 Estyn yr etholfraint i gynnwys yr holl bobl ifanc 16 oed ar y diwrnod pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru fyddai'r newidiadau cyntaf i oedran pleidleiswyr yng Nghymru ers 1970, pan gafodd pobl ifanc 18 oed hawl i bleidleisio am y tro cyntaf.

1.3 Safbwynt Llywodraeth Cymru yw y byddai hawliau presennol dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru i bleidleisio yn etholiadau cynghorau lleol yn parhau ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd, nid oes gan ddinasyddion gwledydd y tu allan i'r UE sy'n byw yng Nghymru hawl i bleidleisio ac eithrio dinasyddion o wledydd y Gymanwlad.

1.4 Felly mae Llywodraeth Cymru yn ystyried estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau lleol i ddinasyddion yr holl wledydd sy'n byw'n gyfreithlon yng Nghymru. Erbyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, bydd Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) wedi dod yn Ddeddf, gan bod disgwyl iddo gael Cydsyniad Brenhinol ar 15 Ionawr 2020. Bydd hyn yn golygu bod yr etholfraint yn cael ei newid ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021.

1.5 Yn ogystal ag ymgysylltu â'r grwpiau newydd arfaethedig a fyddai'n cael eu hetholfreinio, mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb mewn sut i ymgysylltu â grwpiau o bleidleiswyr sydd eisoes wedi'u hetholfreinio ond sy'n llai tebygol o fod wedi cofrestru i bleidleisio a/neu'n llai tebygol o bleidleisio mewn etholiadau lleol. Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad 'Adnewyddu democrataidd: tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol' (Hunt a

---

[1] Gweler Stirbu, D. a McAllister, L. (2020). *Devolution in Wales*, The Routledge Handbook of British Politics and Society, Garnett, M a Pillmoor, H (gol.) (Palsgrave) ar gyfer testun cyfoes ar y cyd-destun gwleidyddol datganoledig yng Nghymru.
[2] Gweler Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).
[3] Gweler Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020. Daeth Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 yn gyfraith yng Nghymru ar 15 Ionawr 2020 ar ôl ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Nickson, 2019)[4]. Roedd yr adolygiad hwn yn arfarnu'r dystiolaeth bresennol ar ymgysylltiad dinesig, democrataidd a phleidleiswyr, ac ymchwil berthnasol ynghylch estyn yr etholfraint i bobl ifanc 16-17 oed a gwladolion tramor.

1.6 Gan adeiladu ar hyn, rhoddodd Llywodraeth Cymru gomisiwn i Beaufort Research i gynnal ymchwil archwiliol gyda'r grwpiau newydd arfaethedig o bleidleiswyr a fyddai'n cael eu hetholfreinio a'r rhai sydd eisoes â hawl i bleidleisio ond sydd wedi ymddieithrio'n wleidyddol. Mae'r ymchwil gynradd hon yn adeiladu ar ddealltwriaeth o'r ymchwil i oleuo strategaethau ar gyfer ymgysylltu â'r grwpiau hyn ynghylch eu hawliau democrataidd ac i hybu cyfranogiad ac ymgysylltiad pleidleiswyr. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio hefyd i oleuo tôn, cynnwys a sianeli cyfathrebiadau ac ymgysylltiad ag unrhyw grwpiau o bleidleiswyr a fydd newydd eu hetholfreinio a'r rhai sy'n tueddu i fod wedi ymddieithrio'n wleidyddol i'w hysbysu ynghylch eu hawliau a hybu cyfranogiad pleidleiswyr.

**Nodau ac amcanion**

1.7 Nod yr ymchwil ar y cyfan oedd deall sut orau i ymgysylltu â grwpiau o bleidleiswyr sydd newydd eu hetholfreinio mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru; a'r rhai sydd eisoes â hawl i bleidleisio ond sydd wedi ymddieithrio'n wleidyddol, i hysbysu'r grwpiau hyn ynghylch eu hawliau a hybu cyfranogiad ac ymgysylltiad democrataidd. I gyrraedd y nod hwn, cynhaliwyd yr ymchwil gyda'r canlynol:

- Pobl ifanc 14-17 oed, oedolion sydd wedi ymddieithrio a gwladolion tramor;
- Rhanddeiliaid sy'n gweithio gydag ystod o grwpiau buddiant.

1.8 Prif amcanion yr ymchwil gyda'r sampl o boblogaeth gyffredinol Cymru oedd:

- Archwilio agweddau tuag at bleidleisio mewn etholiadau;
- Archwilio gwybodaeth a dealltwriaeth gyfredol am wleidyddiaeth yng Nghymru ac i ba raddau y mae pobl yn teimlo'u bod yn cael eu cynrychioli;
- Casglu barn am ymgysylltiad dinesig ehangach a phrofiadau ohono;
- Adnabod dulliau addas / effeithiol o gyfathrebu ac ymgysylltu â gwahanol grwpiau o bleidleiswyr.

1.9 Caiff y cwestiynau ymchwil a archwiliwyd dan bob amcan eu nodi isod:

[4] Gweler Hunt, M. a Nickson, S. (2019). *Adnewyddu democrataidd: tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 13/2019

*Pleidleisio mewn etholiadau*

- Cael y cyfle i bleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru (grwpiau newydd arfaethedig a fyddai'n cael eu hetholfreinio);
- Y tebygolrwydd o gyfranogi mewn etholiadau yng Nghymru, a nodi'r ysgogiadau, a'r rhwystrau, allweddol i wneud hynny;
- Beth fu dylanwad teulu a ffrindiau ar gyfranogi mewn etholiadau yng Nghymru;
- Y broses o gofrestru fel pleidleisiwr a dulliau cyfredol o fwrw pleidlais (e.e. gorsaf bleidleisio / pleidlais trwy ddirprwy / pleidlais drwy'r post);

*Ymgysylltu dinesig ehangach*

- I ba raddau y mae cyfranogwyr yn teimlo'u bod yn gallu ymgysylltu â thrafodaethau gwleidyddol sy'n effeithio ar eu hardal leol a Chymru'n fwy eang;
- Pwysigrwydd ymgysylltu cymunedol (e.e. gwirfoddoli) a mathau eraill o ymgysylltu gwleidyddol (e.e. deisebu, gorymdeithiau, ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol) a sut y mae hyn yn cymharu â phleidleisio mewn etholiadau;

*Gwybodaeth, dealltwriaeth a chynrychiolaeth*

- Gwybodaeth a dealltwriaeth am lywodraeth leol (gan gynnwys cynghorau cymunedol) a sut y mae hyn yn cymharu â'u dealltwriaeth am brosesau penderfynu ar lefelau Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU;
- Y cyswllt rhwng pleidleisio mewn etholiadau lleol a phrosesau penderfynu sy'n effeithio ar faterion lleol;
- I ba raddau y maent yn teimlo bod eu barn yn cael ei chynrychioli gan ymgeiswyr llywodraeth leol;
- Gwybodaeth am ba wasanaethau y mae cynghorau'n gyfrifol am eu darparu;

*Ymgysylltu a chyfathrebu*

- Sut orau i ymgysylltu a chyfathrebu gyda phleidleiswyr iau sydd yn yr ysgol a'r rhai sydd wedi gadael yr ysgol ynglŷn â'u hawl i bleidleisio, i'w hannog a'u galluogi i bleidleisio a chyfranogi mewn democratiaeth yn fwy eang, ac i ddarparu gwybodaeth am y llywodraeth ac ymgeiswyr;

- Sut orau i ymgysylltu a chyfathrebu gyda dinasyddion o wledydd eraill ynglŷn â'u hawl i bleidleisio, i'w hannog a'u galluogi i bleidleisio a chyfranogi mewn democratiaeth yn fwy eang, ac i ddarparu gwybodaeth am y llywodraeth ac ymgeiswyr.

1.10 Roedd prif amcanion yr ymchwil gyda rhanddeiliaid yn archwilio'r canlynol:

- Pa waith y maent eisoes yn ei wneud i hybu dinasyddiaeth ac ymgysylltu dinesig ymhlith y rhai y maent yn gweithio gyda hwy;
- Pa ddulliau, yn eu profiad hwy, yw'r rhai mwyaf llwyddiannus ar gyfer ennyn ymgysylltiad y grwpiau y maent yn gweithio gyda hwy.

## 2. Methodoleg

### Dull ansoddol

2.1 O ystyried natur yr amcanion, defnyddiodd yr ymchwil ddull ansoddol a oedd yn cynnwys cymysgedd o grwpiau ffocws, grwpiau ffocws bach (grwpiau ffocws llai e.e. pedwar neu bum cyfranogwr), cyfweliadau wyneb yn wyneb a chyfweliadau manwl dros y ffôn. Manteision dull ansoddol i'r prosiect hwn oedd:

- Y gallu i archwilio'r amrywiaeth mewn perthynas â'r testunau a oedd o ddiddordeb mewn mwy o fanylder nag a fyddai'n bosibl trwy ddull meintiol;
- Y gallu i gyrraedd grwpiau buddiant a fyddai fel arall yn anodd eu cynnwys gan ddefnyddio dull meintiol;
- Y cyfle i archwilio gyda chyfranogwyr eu hawgrymiadau ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu.

2.2 Anfantais bosibl y dull ansoddol hwn oedd y gallu cyfyngedig i ddwyn casgliadau pendant o'r adborth a gafwyd y gellir eu cymhwyso i boblogaeth, gan na fyddai'r sampl, o fwriad, yn gynrychiadol. Fodd bynnag, mae ymchwilio ansoddol wedi'i fwriadu i ddarparu dealltwriaeth fanwl a oedd yn ofynnol er mwyn archwilio amcanion yr ymchwil. Ei gryfderau yw'r gallu i adnabod themâu ar draws grwpiau amrywiol a dynodi mynychder rhai materion penodol.


2.3 Lle darperir rhestrau o bwyntiau a wnaed gan gyfranogwyr yn yr adroddiad, maent wedi'u gosod yn nhrefn yr wyddor oni nodir yn wahanol, sy'n dynodi nad oedd y pwyntiau'n themâu pennaf. Defnyddir inc trwm yn yr adroddiad i nodi themâu a newid testun.

2.4 Caiff sylwadau air am air dienw a wnaed gan gyfranogwyr eu cynnwys yn yr adroddiad. Ni ddylid dehongli'r sylwadau hyn fel rhai sy'n diffinio barn pawb. Yn hytrach, maent yn rhoi cipolwg ar safbwyntiau unigol ar y pwyntiau a nodir. Mae sylwadau a wnaed yn Gymraeg wedi'u nodi yn union eiriau'r sawl a'u gwnaeth a darperir cyfieithiadau o sylwadau a wnaed yn Saesneg. Mae gan bob sylw briodoliad sy'n dynodi nodweddion y cyfranogwr. Lle mae mwy nag un unigolyn yn cyfrannu at sylw maent wedi'u nodi â 'B' ar gyfer benyw a 'G' ar gyfer gwryw.

### Sampl yr ymchwil

2.5 Roedd y sampl, a gaiff ei chrynhoi yn y diagram isod, yn rhychwantu pedwar grŵp eang o gyfranogwyr: pobl ifanc 14-17 oed (8 grŵp ffocws); oedolion sydd wedi ymddieithrio 18+ oed (8 grŵp); gwladolion tramor (28 o gyfranogwyr); a rhanddeiliaid (12 o gyfranogwyr). Cynullwyd pum grŵp ffocws yn Gymraeg. At ei gilydd, cymerodd 148 o bobl ran yn yr ymchwil rhwng diwedd mis Gorffennaf a dechrau mis Tachwedd 2019 yn Aberystwyth, Rhydaman, Caernarfon, Caerdydd, Y Drenewydd, Abertawe, Torfaen, Y Trallwng a Wrecsam. Ceir rhagor o fanylion am y sampl yn atodiad 1.

**Ffigur 2.1: Crynodeb o'r sampl**[5]




### Recriwtio cyfranogwyr

2.6 Cyn dechrau recriwtio, fe gytunodd Beaufort ar holiadur recriwtio cyfranogwyr gyda Llywodraeth Cymru. Gan ddefnyddio'r holiadur, canfu'r recriwtwyr rhanbarthol gyfranogwyr trwy gnocio ar ddrysau, mynd at bobl yn y stryd a thrwy rwydweithiau. Fe recriwtiodd Beaufort rai pobl ifanc nad ydynt mewn addysg a chyfranogwyr sy'n wladolion tramor trwy gysylltu â sefydliadau sy'n gweithio gyda'r grwpiau hyn.

[5] Mae'r grŵp economaidd gymdeithasol (SEG) a roddwyd ar gyfer y crynodeb o'r sampl sy'n oedolion sydd wedi ymddieithrio yn seiliedig ar alwedigaeth y penteulu, gyda phob grŵp wedi'i ddiffinio fel a ganlyn:
AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch a chanolradd
C1: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol goruchwyliol, clerigol ac iau
C2: Gweithwyr llaw crefftus
DE: Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft, pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a gradd isaf, pobl ddi-waith gyda budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig

Cafodd rhanddeiliaid eu recriwtio o restr hir a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ymarfer cwmpasu rhanddeiliaid. Roeddent yn cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi:

- Pobl ifanc a phlant (gan gynnwys y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, mewn ardaloedd gwledig, ac mewn gofal)
- Pobl ag anabledd a nodweddion gwarchodedig;
- Oedolion economaidd anweithgar;
- Sipsiwn a Theithwyr;
- Cymunedau mudol.

2.7 Rhoddwyd cymhelliad ariannol am gymryd rhan i bob aelod o'r cyhoedd a gyfranogodd i gyfrannu tuag at unrhyw gostau ac fel arwydd o ddiolch am roi o'u hamser.

2.8 Roedd disgwyl i'r broses recriwtio fod yn gryn her ar gyfer rhai grwpiau o gyfranogwyr. Yn arbennig, fe brofodd yn anodd cyrraedd y rhai 16-17 oed nad ydynt mewn addysg: dod o hyd i'r rhai nad oeddent mewn rhyw fath o hyfforddiant neu addysg a hefyd eu hannog i gymryd rhan. Hefyd, roeddem yn gofyn i oedolion gymryd rhan mewn ymchwil ar destun yr oeddent wedi ymddieithrio oddi wrtho. Her bellach oedd tawelu meddyliau rhai unigolion o'r tu allan i'r UE a'r Gymanwlad bod yr ymchwil yn un ddiffuant ac nad oedd yn gysylltiedig â'u statws yn y DU. Er gwaethaf camau a gymerwyd i dawelu meddyliau darpar gyfranogwyr (gan gynnwys cymhelliad ariannol) ac er bod y sesiynau wedi cael eu gwneud yn ddeniadol, roedd cyflawni'r sampl derfynol yn dal yn anodd ac yn llafurddwys. Bu gweithio gyda sefydliadau (e.e. grŵp cymunedol, sefydliad cymorth neu elusen) o gymorth i recriwtio rhai o'r cyfranogwyr hyn. Mae'r profiad hwn yn dwyn goblygiadau ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau o ran adnewyddu ymgysylltiad democrataidd â phobl sydd wedi ymddieithrio.

**Y trafodaethau a dadansoddi**

2.9 Lluniodd Beaufort ganllaw i'r testunau i'w ddefnyddio yn y trafodaethau a gafodd ei ddiwygio yn seiliedig ar adborth gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y canllaw ei addasu ychydig ar gyfer gwahanol grwpiau. Defnyddiwyd diwrnod cyntaf y gwaith

maes fel peilot i wirio bod y canllaw i'r testunau'n gweithio. Ni wnaed unrhyw newidiadau arwyddocaol.

2.10 Dechreuodd y trafodaethau â chwestiwn byr a oedd yn gofyn i'r cyfranogwyr pa mor debygol fyddent o bleidleisio mewn etholiad yng Nghymru pe baent yn gymwys. Wedyn fe symudon nhw ymlaen at destun ymgysylltu dinesig ehangach: beth yw'r agweddau cadarnhaol a llai cadarnhaol ar y lle yr oedd cyfranogwyr yn byw. Fe wnaeth yr adran hon archwilio barn cyfranogwyr ynglŷn â chodi mater neu chwarae rhan yn eu cymuned leol hefyd.

2.11 Wedyn fe archwiliodd y trafodaethau wybodaeth a dealltwriaeth cyfranogwyr am gynghorau lleol, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe gyffyrddon nhw hefyd â'r cwestiwn i ba raddau yr oeddent yn teimlo'u bod yn cael eu cynrychioli gan eu cynghorwyr lleol.

2.12 Rhoddodd trydedd ran y drafodaeth sylw i farn pobl ynglŷn â phleidleisio mewn etholiadau ac ysgogiadau a rhwystrau i bleidleisio, gyda ffocws ar etholiadau Cynghorau a'r Cynulliad Cenedlaethol.

2.13 Yn yr adran olaf, gofynnwyd i'r cyfranogwyr am unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut i ymgysylltu a chyfathrebu gyda hwy ynghylch pleidleisio ac ymgysylltu dinesig ehangach. Yn olaf, gofynnwyd iddynt eto am y tebygolrwydd y byddent yn pleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru, pe baent yn gymwys.

2.14 Fe wnaed recordiadau sain o'r trafodaethau grŵp a'r cyfweliadau gyda chaniatâd y cyfranogwyr. Cynhyrchwyd trawsgrifiadau fel sail i'r dadansoddiad. Defnyddiwyd dull anwythol i gwblhau'r dadansoddiad lle gwnaeth yr ymchwilwyr, trwy ddadansoddi disgrifiadol, gategoreiddio'r data i ddatblygu themâu a oedd yn dod i'r amlwg o gynnwys y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau. Cafodd y categorïau a'r themâu eu fframio'n fras o fewn amcanion allweddol yr ymchwil.

# 3. Gwybodaeth, dealltwriaeth a chynrychiolaeth

3.1 Mae'r bennod hon yn archwilio ymwybyddiaeth y cyfranogwyr o'u cyngor lleol, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a'u cynefindra â'r rhain:

- Roedd y cyfranogwyr yn gwybod rhywbeth am eu cyngor lleol ond ychydig oeddent yn ei wybod am Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Roedd eu cyngor lleol yn fwy gweladwy iddynt trwy wasanaethau a rhyngweithiadau;
- Roedd y cyfranogwyr ar y cyfan yn ystyried mai'r un oedd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, lle'r oeddent yn ymwybodol o'r enwau;
- Roedd y cyfranogwyr yn meddwl bod gan wleidyddiaeth broffil isel yng Nghymru. Roedd y cyfranogwyr yn fwy cyfarwydd â gwleidyddiaeth a ffigyrau gwleidyddol y DU o'i gymharu â Chymru gan eu bod yn fwy gweladwy yn y cyfryngau.

**Gwybodaeth a dealltwriaeth am y cyngor lleol**

3.2 Ar y cyfan, nid oedd cyfranogwyr yn meddwl eu bod yn gyfarwydd iawn â'r hyn y mae eu cyngor lleol yn ei wneud. Fodd bynnag, roeddent yn tueddu i fod yn ymwybodol mai cyfrifoldeb y cyngor oedd rhai gwasanaethau penodol. Roedd gwasanaethau gwastraff, llyfrgelloedd, parciau a chanolfannau hamdden, tai a chynllunio'n cael eu dewis yn rheolaidd pan gyflwynwyd rhestr o wasanaethau posibl y cyngor i'r cyfranogwyr. Roedd rhai cyfranogwyr yn cyfaddef eu bod yn cymryd yn ganiataol mai'r cyngor oedd yn darparu'r gwasanaethau hyn yn hytrach na'u bod yn gwybod yn bendant.

> *B: Dydych chi ddim wir yn clywed llawer amdano. B: Oni bai eu bod yn casglu'r biniau neu rywbeth, dyna'r cwbl. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (16-17, ddim mewn addysg, Abertawe)*

> *Pan gofrestrais gyda'r llyfrgell, rwy'n credu fy mod wedi mynd trwy wefan y cyngor ond [dydw i ddim yn gwybod] dim byd arall heblaw am hynny. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o wlad yn yr UE, Wrecsam)*

> *Y cwbl a wn i yw bod rhaid i chi dalu eich treth y pen a'u bod yn anfon neges garedig i'ch atgoffa os nad ydych. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 45+, DE, Torfaen)*

3.3 O'r gwasanaethau posibl yn y rhestr a ddangoswyd i gyfranogwyr nad oedd y cyngor lleol yn gyfrifol amdanynt, 'gwasanaethau iechyd (e.e. meddygon teulu, ysbytai a.y.b.)' oedd fwyaf tebygol o gael eu dewis, yn enwedig ymhlith pobl ifanc

(14-17 oed). Roedd pobl ifanc hefyd yn fwy tebygol o feddwl nad cyfrifoldeb y cyngor oedd gofal cymdeithasol. Roedd gan y rhai a oedd yn dal mewn addysg (16-17 oed) fwy o wybodaeth na'r rhai nad oeddent mewn addysg.

3.4 Mae meysydd eraill lle ceir ansicrwydd yn adlewyrchu gwasanaethau lle'r oedd cyfranogwyr yn llai tebygol o fod wedi rhyngweithio â'r cyngor o gwbl: priffyrdd / trafnidiaeth ac amaethyddiaeth. Mae'r diagram isod yn amlygu'r gwasanaethau a'r meysydd yr oedd cyfranogwyr yn meddwl neu'n cymryd yn ganiataol mai'r cyngor oedd yn gyfrifol amdanynt. Mae'r croesau oren yn dynodi bod rhai cyfranogwyr wedi dewis yn anghywir. Mae'r croesau mwy'n dynodi bod y mwyafrif wedi dewis yr opsiwn hwnnw. Gofynnwyd i wladolion tramor am restr fyrrach ac ar y cyfan fe ddewison nhw wasanaethau gwastraff, ysgolion, llyfrgelloedd, parciau a hamdden a thai. Roeddent weithiau'n ansicr ynghylch gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd rhai gwladolion tramor yn credu bod y cyngor lleol yn gyfrifol am blismona a diogelwch cymunedol hefyd.

**Ffigur 3.1: Rhestr o wasanaethau a chyfrifoldeb canfyddedig cynghorau lleol yn ôl oedran a grŵp economaidd gymdeithasol lle y bo'n briodol (pobl ifanc ac oedolion sydd wedi ymddieithrio)**



3.5 Er eu bod yn ymwybodol neu wedi tybio'n gywir pa wasanaethau yr oedd cyngor lleol yn eu darparu, daeth yn amlwg nad oedd cyfranogwyr yn ymwybodol iawn sut y mae cyngor lleol yn gweithredu a beth yw rôl cynghorwyr. Roedd achosion hefyd lle nad oedd cyfranogwyr yn ymwybodol y gallent bleidleisio dros gynghorwyr i'w cynrychioli. Hefyd, roeddent yn anymwybodol gan mwyaf pwy oedd eu cynghorwyr lleol a pha bleidiau yr oeddent yn eu cynrychioli.

> *Dydw i ddim yn meddwl bod a wnelo gwleidyddiaeth â'r cyngor; rhywbeth y mae a wnelo â'r llywodraeth ydyw. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 16-17, ddim mewn addysg, Caerdydd)*

3.6 Roedd eithriadau lle'r oedd cynghorydd wedi ymwneud yn bersonol â rhywbeth a effeithiodd ar gyfranogwr (e.e. tŷ ar gyfer un cyfranogwr hŷn a helpu i ddatblygu parc lleol yr oedd person ifanc yn ei ddefnyddio).

3.7 Lle'r oedd cyfranogwyr yn fwy sicr ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan y cyngor lleol, roeddent wedi cael yr wybodaeth mewn tair ffordd yn bennaf: dysgu dros amser trwy ryngweithiadau â'r cyngor (e.e. gyda'r gwasanaeth tai, trwy fod â gweithiwr cymdeithasol, trwy ymholiadau ynglŷn â chasglu gwastraff); clywed ar lafar gwlad; a gweld logo'r cyngor lleol yn y fan a'r lle neu weld staff yn gwneud gwaith amgylcheddol megis torri gwair. Roedd cyfeiriadau achlysurol at ddod i wybod am y cyngor trwy newyddion rhanbarthol a lleol, Facebook, ap gan y cyngor i roi gwybod am broblemau a thrwy fil y dreth gyngor hefyd.

> *Nid yw'n rhy glir [beth mae'r cyngor yn ei wneud]. Am a wn i, rwy'n cael pamffled bob blwyddyn gyda fy nhreth gyngor sy'n dweud wrthyf i ble mae fy arian yn mynd: i'r heddlu ac i fan hyn a fan draw ac ati. . . . Na, dydw i ddim [yn ei ddarllen] am nad ydw i'n meddwl bod dim byd wir yn mynd i newid byth. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (Benyw, Gwladolyn tramor o un o wledydd y Gymanwlad, Y Trallwng)*

3.8 Fe ychwanegodd gwladolion tramor at y ffynonellau gwybodaeth hyn ac fe gyfeirion nhw at chwiliadau ar-lein, ymweld â swyddfeydd y cyngor gydag ymholiad, cael cyfathrebiad gan ysgol eu plentyn, cael gwybodaeth gan y brifysgol yr oeddent yn ei mynychu a thrwy elusennau (e.e. canolfannau galw heibio).

3.9 Roedd cyfranogwyr yn anymwybodol i raddau helaeth o gynghorau tref neu gymuned. Mewn achosion prin ymhlith cyfranogwyr 45 oed neu hŷn, roedd peth ymwybyddiaeth yn y Drenewydd a Thorfaen. Roedd y cyfranogwyr yn meddwl eu bod yn ymdrin â phethau megis gwelyau blodau, basgedi crog a helpu i gadw'r dref yn daclus. Roedd cwpl o gyfranogwyr yn ymwybodol o'r adeilad yr oedd y cyngor tref neu gymuned yn gweithredu ynddo ond nid oedd unrhyw syniad ganddynt beth oedd yn digwydd y tu mewn.

**Teimlo'u bod yn cael eu cynrychioli**[6]

3.10 Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr naill ai'n teimlo nad oeddent yn cael eu cynrychioli gan eu cynghorwyr lleol neu'n teimlo na allent ateb y cwestiwn hwn. Nid oedd yn rhywbeth yr oeddent hwy wedi ei ystyried. Roedd cyfuniad o nifer o ffactorau wedi gwneud i rai cyfranogwyr gredu nad oedd cynghorwyr lleol yn eu cynrychioli: y diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am eu cyngor lleol; ymwybyddiaeth isel o gynghorwyr; prin neu byth yn gweld cynghorydd; a neb erioed wedi gofyn iddynt am eu barn.

> *B: Go brin [fy mod yn teimlo fy mod yn cael fy nghynrychioli] gan nad ydw i hyd yn oed yn gwybod pwy yw fy nghynghorydd lleol. B: Na, dydw i ddim yn gwybod pwy ydyw na beth maent yn ei wneud felly dydw i ddim yn gwybod pa mor dda y maent yn ei wneud mewn gwirionedd. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (18-24, C2DE, Wrecsam)*

3.11 Dywedodd y rhai nad oeddent yn gallu dweud a oeddent yn teimlo'u bod yn cael eu cynrychioli ai peidio nad oeddent yn gwybod digon am y cyngor a chynghorwyr lleol i ffurfio barn.

3.12 Daeth grŵp pellach o gyfranogwyr i'r casgliad eu bod yn cael eu cynrychioli mwy na thebyg am bod gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn gweithio'n ddigonol ac nad oedd unrhyw broblemau dybryd ganddynt. Roedd gwladolion tramor yn fwy tebygol

---

[6] Ar gyfer cyd-destun ar gynrychiolaeth, gweler:

- *Senedd sy'n Gweithio i Gymru, Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad* (2017)
- Hunt, M. a Nickson, S. (2019). *Adnewyddu democrataidd: tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 13/2019
- McConnel, J. a Stevenson, S. (2019). *Gwerthusiad o amrywiaeth mewn democratiaeth: Adroddiad terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 27/2019.
- *Ar ôl pwyso a mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru, Adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol* (2014)
- Stirbu, D., Larner, J., a McAllister, L. (2018). *Gender Representation in Wales: New approaches to Candidate Selection in UK's Devolved Legislatures and Beyond*, yn Democratizing Candidate Selection. *New Methods, Old receipts?*, Cordero, G., Coller, X. (gol.) Palgrave Macmillan

o deimlo fel hyn, yn enwedig os nad oeddent wedi bod yn y wlad am yn hir iawn a'u bod wedi dod o wlad â gwasanaethau lleol llai datblygedig.

3.13 Mewn achosion prin, roedd cyfranogwyr yn teimlo'u bod yn cael eu cynrychioli am bod cynghorydd wedi'u cynorthwyo gyda mater neu am bod y cyngor, yn hytrach na chynghorydd, wedi ymateb i ymholiad neu fater.

**Disgwyliadau ynglŷn â sut berson allai cynghorydd lleol fod**

3.14 O ystyried ymwybyddiaeth isel cyfranogwyr o'u cynghorwyr a'u cynefindra cyfyngedig â chynghorau, yn aml nid oedd barn na disgwyliadau ganddynt ynglŷn â sut berson allai cynghorydd lleol fod. Lle gwnaeth cyfranogwyr leisio barn, roedd yn tueddu i fod yn niwtral neu'n llai cadarnhaol. Roedd canfyddiadau weithiau'n cael eu ffurfio ar sail barn ynglŷn â'r cyngor lleol yn hytrach na chynghorwyr. Roedd arwydd hefyd bod clywed rhieni a pherthnasau'n cwyno am faterion megis tyllau yn y ffordd yn dylanwadu ar ganfyddiadau llai cadarnhaol rhai pobl ifanc am y cyngor.

> *Mae fy mam-gu yn gweithio fel cogydd mewn ysgolion ac mae hi'n cwyno wrthyf am y cyngor drwy'r amser. Ond dydw i ddim yn gwrando, hi sy'n siarad gyda fi, felly dydw i ddim yn gwybod beth mae hi'n ei ddweud. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 16-17, ddim mewn addysg, Abertawe)*

3.15 Roedd rhai cyfranogwyr iau o'r grŵp oedran 16-24 yn teimlo mai pobl hŷn fyddai cynghorwyr ac na fyddai'n hawdd uniaethu â hwy, mwy na thebyg. Roedd rhai'n tybio bod cynghorwyr yn annhebygol o ddefnyddio platfformau'r cyfryngau cymdeithasol fel Snapchat a ddefnyddir gan bobl ifanc. Roeddent yn amau nad oedd cynghorwyr yn malio am bobl ifanc neu nad oedd ganddynt rhyw lawer o ddiddordeb mewn cynrychioli pobl ifanc. Rhoddwyd enghraifft, sef cau clybiau ieuenctid mewn un ardal yn ôl y sôn. Gan feddwl yn fwy am y cyngor yn hytrach na chynghorwyr, roedd rhai cyfranogwyr 16-17 oed yn teimlo bod y cyngor ar fai am broblemau lleol gyda defnyddio cyffuriau a digartrefedd.

> *B: Ac fe aethon nhw â'r holl glybiau ieuenctid a chanolfannau ieuenctid i ffwrdd. Popeth yr oedd pobl wedi arfer â hwy cyn hynny, wedyn does gan blant ddim byd i'w wneud. . . . B: Wnawn nhw ddim siarad gyda'n hoedran ni. . . . B: Dydyn nhw mwy na thebyg ddim yn malio am ein barn ni, ydyn nhw? (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (16-17, mewn addysg, Wrecsam)*

*Sai'n mynd ar oedran, mor bell a bod nhw'm hefo tuedd tuag at fel 'o, dyw plant ddim yn gwybod dim'. (Gwryw, 16-17, mewn addysg, Aberystwyth)*

3.16 Ar adegau roedd cyfranogwyr yn dyfalu bod cynghorwyr yn debygol o fod o gefndiroedd cefnog ac efallai eu bod yn fwy breintiedig: 'ychydig yn fwy posh' fel yr awgrymodd un cyfranogwr ifanc.

*G: Maent fel arfer ychydig yn fwy oedrannus, ond nid bob amser. G: Dydyn nhw ddim yn oedrannus. G: Maen nhw weithiau ychydig yn fwy posh na'r rhan fwyaf o bobl, am nad yw pobl sydd ddim yn posh yn meddwl rhyw lawer am wleidyddiaeth. Wn i ddim. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 14-15, Y Drenewydd)*

*Fyddwn i ddim yn dweud [fy mod yn cael fy nghynrychioli] yn dda iawn. . . . Wn i ddim. Maen nhw'n fwy breintiedig na'r bobl gyffredin y maen nhw i fod i ofalu amdanynt am a wn i. Felly dydyn nhw ddim yn deall, rywsut. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 18-24, C2DE, Wrecsam)*

3.17 Gan adlewyrchu agwedd o sinigiaeth gyffredinol, roedd rhai cyfranogwyr hŷn ac, o bryd i'w gilydd, gwladolion tramor yn tybio bod cynghorwyr mwy na thebyg yn cael gormod o dâl, yn cael eu hysgogi gan hunan-fudd ac yn peidio â chadw eu haddewidion. Mewn lleoliad yn y Cymoedd, er enghraifft, roedd cwpl o gyfranogwyr yn gwybod am gynghorydd lleol yn bennaf trwy fod wedi clywed ar lafar gwlad a arferai gynnal cyfarfodydd rheolaidd yn y ganolfan gymunedol. Roedd y rhain wedi dod i ben am nad oedd pobl yn mynychu mwyach am eu bod wedi'u dadrithio gan y diffyg gweithredu.

3.18 Un pwynt olaf a wnaed gan wladolyn tramor oedd ei bod mwy na thebyg yn cael ei 'derbyn' gan gynghorwyr lleol ond y byddai cynghorwyr yn fwy tebygol o wrando ar 'gymdogion Prydeinig' nag arni hi. Roedd hi'n meddwl y gallai cynghorwyr gael eu cymell i ymchwilio i'w chefndir hefyd. Roedd hi'n cofio cysylltu â'r cyngor ynglŷn â tho a oedd yn gollwng, ond dim ond pan ddechreuodd y landlord ymwneud â'r mater y gwnaeth y cyngor gywiro'r broblem (roedd y fflat uwchben y fflat y mae hi'n ei rhentu'n breifat ym mherchnogaeth y cyngor).

3.19 I'r un perwyl, dywedodd gwladolyn tramor arall nad oedd hi'n teimlo'n ddiogel wrth grwydro o gwmpas Wrecsam oherwydd yr arferion defnyddio cyffuriau yr oedd yn eu gweld. Awgrymodd nad oedd cynghorwyr na'r cyngor felly'n ei chynrychioli fel y byddai'n ei ddymuno o ganlyniad.

3.20 Roedd disgwyliadau cadarnhaol yn fwy tebygol o gael eu mynegi ymhlith pobl ifanc 14-15 oed a gwladolion tramor. Roedd tybiaethau y byddai cynghorwyr mwy na thebyg yn 'neis', 'normal', o'r ardal leol, yn angerddol, yn hawdd mynd atynt ac â diddordeb mewn gwrando ar bobl.

3.21 Roedd profiadau'r nifer fach o gleifion gyda chynghorwyr lleol yn gadarnhaol gan mwyaf. Roeddent yn cynnwys cael cymorth amhrisiadwy ac empathi ar adegau anodd (e.e. pan oeddent yn ddigartref, ar gyfer problemau iechyd meddwl plentyn a chyda mynediad at ofal plant). Roedd cwpl o bobl ifanc mewn un grŵp wedi gweld tystiolaeth ar Facebook bod eu cynghorydd lleol yn gweithio'n galed ar brosiectau cymunedol megis casglu sbwriel. Hefyd, roedd gwladolyn tramor yn tybio bod mwy o bresenoldeb gan yr heddlu ar ôl troseddau treisgar yn yr ardal wedi deillio o'r ffaith bod y cyngor yn gofalu am drigolion Roedd cynghorydd a oedd yn cael ei weld yn ymgysylltu'n frwd â phobl leol ac yn eu helpu wedi creu argraff gadarnhaol ymhlith cyfranogwyr mewn un grŵp.

> *G: Wedi dweud hynny, mae un cynghorydd da. B: Ie, dyna am bwy ro'n i'n siarad. . . . Mae hi'n gwrando. B: Mae hi'n gwrando ar y bobl, mae hi'n cael canlyniadau. G: Mae hi fel Rottweiler. . . . B: Rydych chi'n gwybod ei bod hi'n gwrando; mae hi'n llefain gyda chi. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (45+, DE)*

**Gwybodaeth a dealltwriaeth am Lywodraeth Cymru**

3.22 Ynglŷn â'r cyd-destun, dylid cofio bod rhai cyfranogwyr yn credu bod gan wleidyddiaeth yng Nghymru broffil isel. Nid oeddent yn gweld sylw iddi yn y cyfryngau nac yn clywed amdani'n gyffredinol, yn enwedig gyda chymaint o sôn am wleidyddiaeth y DU a Brexit.

> *Ond i mi, nid yw'n glir go iawn beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. O leiaf o'r newyddion yr wyf fi'n eu darllen, ac rwy'n darllen BBC Wales a Media Wales. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o wlad yn yr UE, Caerdydd)*

3.23 Ar y cyfan, roedd cynefindra cyfranogwyr â Llywodraeth Cymru a'u dealltwriaeth amdani'n is nag ar gyfer y cyngor lleol er bod ymwybyddiaeth o 'Lywodraeth Cymru' yn weddol gyffredin.

3.24 Ar draws gwahanol fathau o gyfranogwr, roedd rhai'n cydnabod nad oedd unrhyw syniad ganddynt beth yr oedd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano. Roedd

canfyddiadau am ei rôl a'i chyfrifoldebau, lle gwirfoddolwyd y rhain, yn tueddu i fod yn weddol amwys. Roedd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol, er enghraifft, am Gymru gyfan mewn rhyw ffordd anniffiniedig; roedd ar lefel uwchlaw cynghorau lleol ac efallai'n gyfrifol am yr holl gynghorau; roedd ei ffocws ar Dde Cymru, yn ôl rhai yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru; ac roedd a wnelo mewn rhyw ffordd ag adeilad y Senedd ym Mae Caerdydd.

> *G: Dim clem. G: Llywodraeth Cymru yn amlwg yw'r corff mwyaf, onide, o'i gymharu â'r [cyngor] lleol ac am a wn i dyna ble y mae'r ASau a'r holl bobl yn uwch i fyny'r gadwyn yn gwneud beth bynnag y maen nhw'n ei wneud. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 45+, DE, Torfaen)*
>
> *Sai'n really clir ar be maen nhw'n neud, ond byddwn i'n meddwl trio jyst gwella Cymru fel gwlad. (Gwryw, 16-17, mewn addysg, Aberystwyth)*
>
> *Be sy'n digwydd yng Nghymru. Pethau mwy kind of top shelf. (Gwryw, 18-24, ABC1, Caernarfon)*
>
> *Maen nhw'n gwneud yr un peth [â'r cyngor] ond i bobl y byddai'n well ganddynt siarad Cymraeg. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 16-17, ddim mewn addysg, Caerdydd)*

3.25 Mae'r pwynt olaf hwn yn amlygu sut yr oedd cyfranogwyr, at ei gilydd, yn tybio mai'r un endid oedd Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (lle'r oeddent wedi clywed am y ddau). Lle'r oedd cyfranogwyr wedi meddwl am y peth o gwbl, roedd peth dryswch hefyd ynglŷn â pherthynas Llywodraeth Cymru / Cynulliad Cenedlaethol Cymru â Llywodraeth y DU.

3.26 Yn anfynych, roedd cyfranogwyr ychydig yn fwy ymwybodol o gyfrifoldebau a gweithgareddau Llywodraeth Cymru, ond roedd ei henw'n cael ei ddefnyddio bob yn ail â'r 'Cynulliad' mewn rhai achosion. Cafwyd cyfeiriadau achlysurol at iechyd, y GIG a phresgripsiynau am ddim ac at addysg fel meysydd cyfrifoldeb. Fe wnaed cyfeiriadau prin eraill at y canlynol:

- Bod â phwerau trethiant a rhywfaint o reolaeth ar gyllid (ar ôl i gyfranogwr fod ar daith o amgylch y Senedd a thrwy gwrs ar-lein ar gyfrifyddu);
- Y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni polisïau ac ar wahân i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (cyfranogwr a oedd yn wladolyn tramor ac a oedd â diddordeb yng nghynllun Llywodraeth Cymru i raddedigion);

- Darparu gofal plant am ddim (25-44 oed);
- Rhoi'r cynllun 'cymorth i brynu' newydd ar gyfer tai ar waith (25-44 oed);
- Lleihau'r defnydd o fagiau plastig (a oedd yn amlygu'r diffyg pŵer arwyddocaol a oedd gan Lywodraeth Cymru ym marn y cyfranogwr hwn);
- Cyfrifoldebau am drafnidiaeth.

*Onid yw'n rhedeg y GIG yng Nghymru, neu a oes ganddi fwy o reolaeth arni a'r system addysg am bod y sefyllfa'n wahanol i Loegr? A chorff yng Nghymru yw CBAC. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 18-24, ABC1, Torfaen)*

*Fatha genna chdi'n cynulliad yng Nghymru, wedyn genna chdi'r llywodraeth yn Llundain. Ond mae Cymru'n siarad fwy am pethau yng Nghymru. Lle mae'r llywodraeth yn Llundain fatha yr UK i gyd. Ond mae Cymru yn siarad am fatha ysgolion, siarad am yr iaith Gymraeg a pethau fel'na. (Benyw, 14-15, Caernarfon)*

3.27 Roedd nifer fach o gyfranogwyr a oedd yn wladolion tramor yn wleidyddol ymwybodol ar y cyfan ac fe ddyfalon nhw'n gywir beth oedd rôl Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Roeddent weithiau'n siarad yn fwy cadarnhaol am wleidyddiaeth yng Nghymru nag wrth drafod gwleidyddiaeth yn gyffredinol, er enghraifft Brexit.

*Rwyf wedi clywed y gall unrhyw un fod yn bresennol pan fo'r trafodaethau'n digwydd [yn y Senedd]. Mae hynny'n wych ac yn ennyn brwdfrydedd yn fy marn i. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Caerdydd)*

**Gwybodaeth a dealltwriaeth am Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

3.28 Roedd cyfranogwyr yn aml yn teimlo nad oeddent yn gallu gwneud sylw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ychwaith am nad oeddent wedi clywed amdano neu eu bod wedi clywed yr enw ond nad oeddent yn gwybod rhyw lawer amdano.

*G: Dim syniad. . . . B: Maen nhw'n canolbwyntio ar Gymru yn unig. . . . B: Dim ond casgliad o bobl sy'n siarad am Gymru ydyn nhw, onide? (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (18-24, C2DE, Wrecsam)*

*G: Na, doeddwn i ddim yn gwybod hynny. B: Ro'n i'n meddwl taw'r un peth oedd y ddau. B: Y Cynulliad Cenedlaethol?. . . B: Pa un sydd â'r adeilad hardd hwnnw yng Nghaerdydd? . . . G: Ond pam fod angen dau wahanol beth arnom i redeg Cymru? B: Ydyn nhw'n gwrthddweud ei gilydd? (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (45+, DE, Y Drenewydd)*

3.29 Weithiau roedd cysylltiad yn cael ei wneud ag adeilad y Senedd ym Mae Caerdydd. Roedd achosion lle'r oedd cyfranogwyr wedi ymweld â'r Senedd fel rhan o daith. Roedd y rhain yn tueddu i fod yn bobl ifanc a oedd wedi ymweld ar wibdaith ysgol. Roedd nifer fach o wladolion tramor wedi ymweld hefyd. Nid oedd eu hatgofion o'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu ar y daith am y Cynulliad yn glir iawn. Roedd enghreifftiau o'r atgofion a chanfyddiadau hyn yn cynnwys meddwl ei bod yn 'wych' gweld y siambr ddadlau; clywed sôn bod ganddo rai pwerau datganoledig a phwerau trethu; ei chael braidd yn ddryslyd deall beth yw rôl y Cynulliad; a meddwl nad oedd wedi ennyn rhyw lawer o frwdfrydedd, yn ôl un neu ddau o bobl ifanc.

*Rwy'n cofio i mi eistedd mewn cadair ac fe wnaethom esgus ein bod yn pleidleisio dros bethau, ond dyna'r oll. Roedd yn ddiflas. . . . [Ond] fe wylion ni bleidlais hefyd, fe wylion ni gyfarfod enfawr, roedd hynny'n wych. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 16-17, ddim mewn addysg, Abertawe)*

3.30 Fel gyda Llywodraeth Cymru, o bryd i'w gilydd roedd mwy o ymwybyddiaeth o'r Cynulliad. Cafwyd cyfeiriadau at y ffaith ei fod yn debyg i Dai'r Senedd yn Llundain gyda dadleuon a'r ffaith ei fod yn pasio deddfau yng Nghymru ond mai San Steffan oedd â'r pŵer mwyaf o hyd. Roedd y Cynulliad hefyd yn ei gwneud yn bosibl clywed llais pobl yng Nghymru ac yn gofalu am Gymru mewn rhyw ffordd trwy wneud penderfyniadau ar ei rhan. Fodd bynnag, nid oedd yn glir beth oedd y rhain.

*Mae Llywodraeth yn bobl a fydd yn mynd mor bell â gweithredu a gwneud pethau. Ac yna'r cwbl yw'r Cynulliad yw'r bobl sy'n siarad amdano. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 14-15, Torfaen)*

3.31 Roedd cryn dipyn o ddryswch ynglŷn â sut yr oedd y Cynulliad yn gweithio a beth oedd ei berthynas â Llywodraeth y DU. Roedd rhai'n meddwl bod gwleidyddion yn y Cynulliad yn cynrychioli Cymru yn San Steffan trwy fynychu Tŷ'r Cyffredin ac adrodd yn ôl wrth y Cynulliad. Roedd tybiaeth hefyd bod yn rhaid i'r holl ddeddfau gael eu pasio gan San Steffan o hyd. Canfyddiad arall a fynegwyd oedd bod y Cynulliad yn ymorol yn fwy am Dde Cymru na rhannau eraill o'r wlad.

*Mae'r representative yn y Senedd yn mynd i'r House of Commons, wedyn maen nhw'n trafod o'n fan 'na wedyn dod nôl wedyn, a wedyn sortio'n fa'ma. (Gwryw, 18-24, ABC1, Caernarfon)*

*Rwy'n deall bod gan Lywodraeth yr Alban eu cynrychiolwyr yn y Senedd yn San Steffan, ond hyd y gwn i nid yw'r un o Aelodau Cynulliad Cymru yn mynd i'r Senedd. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o un o wledydd y Gymanwlad, Abertawe)*

**Gwybodaeth a dealltwriaeth am Lywodraeth y DU**

3.32 O ystyried y lefel o sylw a roddir iddi yn y wasg, roedd ychydig mwy o ymwybyddiaeth o Lywodraeth y DU a'i gwleidyddion mewn cyferbyniad â phroffil isel canfyddedig gwleidyddiaeth Cymru. Y ffigyrau gwleidyddol blaenllaw a grybwyllwyd oedd Boris Johnson (er nad oedd pawb yn ymwybodol ei fod yn Brif Weinidog), Donald Trump ac o bryd i'w gilydd Theresa May. Serch hynny, ychydig oedd gan gyfranogwyr i'w ddweud am wleidyddiaeth y DU yn aml. Roedd y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn aneglur ar y cyfan. Roedd rhai cyfranogwyr yn cydnabod nad oeddent erioed wedi meddwl am y peth o'r blaen.

*Mae be bynnag sy'n cael ei neud yn Llywodraeth Cymru mond yn effeithio Cymru. Ac o be fi'n deall, unrhyw beth drastic iawn yn Llywodraeth Prydain, ti'n gwybod, mae'n effeithio pawb. (Gwryw, 16-17, mewn addysg, Aberystwyth)*

3.33 Roedd cyfranogwyr o'r farn ar y cyfan bod Brexit yn thema wleidyddol flaenllaw ac roedd yn effeithio canfyddiadau rhai cyfranogwr am wleidyddiaeth. Roedd rhai gwladolion tramor yn gofidio am yr hyn a oedd yn eu haros yn y dyfodol yn y DU ac fe soniodd nifer fach am brofiadau annymunol yn eu cymuned oherwydd eu cenedligrwydd. Yn fwy eang, roedd Brexit yn peri dryswch a rhwystredigaeth ymhlith cyfranogwyr a oedd wedi hen alaru arno. Roedd y mater yn dwysau eu dadrithiad lle'r oedd gwleidyddiaeth yn y cwestiwn.

3.34 Mewn cyferbyniad, roedd rhai siaradwyr Cymraeg mewn un grŵp ffocws yn ymwybodol o'u AS lleol. Roeddent yn meddwl bod yr AS yn hawdd mynd ato ac yn ddiwyd ac roeddent yn dilyn yr unigolyn ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y cyfuniad o weledthough ac oedran yr AS (yn iau na llawer o ASau, 'yn ŵr dymunol iawn i siarad gydag ef') yn helpu gyda'r ymgysylltu hwn.

## 4. Agweddau tuag at bleidleisio

4.1 Mae'r bennod hon yn archwilio lefelau o gymhelliad i bleidleisio yn etholiadau Cynghorau a'r Cynulliad Cenedlaethol, rhwystrau i bleidleisio, trafodaeth wleidyddol gartref a chanfyddiadau am y broses bleidleisio:

- Roedd pobl iau a gwladolion tramor yn fwy tebygol o ddangos diddordeb mewn pleidleisio;
- Roedd diffyg gwybodaeth, meddwl bod gwleidyddiaeth yn anneniadol a dadrithiad cyffredinol gyda gwleidyddion yn rhwystrau blaenllaw i bleidleisio;
- Ni ddaeth y broses bleidleisio ei hun i'r amlwg fel rhwystr allweddol i bleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru;
- Roedd 'gwleidyddiaeth' yn aml yn cael ei dehongli o safbwynt negyddol a oedd wedi ymffurfio dros amser i gyfranogwyr hŷn a oedd wedi ymddieithrio;
- Nid oedd rhyw lawer i awgrymu bod unrhyw drafodaethau gwleidyddol adeiladol yn digwydd gartref, ac eithrio ymhlith teuluoedd rhai pobl ifanc a rhai gwladolion tramor.

**Barn ynglŷn â gostwng yr oedran pleidleisio yng Nghymru**

4.2 Mynegodd pobl ifanc rhwng pedair ar ddeg a dwy ar bymtheg farn gymysg pan ofynnwyd a ddylai'r oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau yng Nghymru gael ei ostwng i 16 oed[7]. Fe wnaeth y rhai a oedd o blaid gyflwyno'r dadleuon canlynol:

- Mae angen i leisiau pobl ifanc gael eu clywed gan mai ar eu dyfodol hwy y bydd y canlyniad yn effeithio;
- Os yw unigolyn yn teimlo'n ddigon parod ac aeddfed i bleidleisio dylid caniatáu iddynt wneud hynny;
- Os oeddent yn gallu penderfynu gadael yr ysgol, gweithio'n llawn-amser ac ymuno â'r fyddin, dylent allu pleidleisio mewn etholiad;
- Nid oedd rhyw lawer o wahaniaeth rhwng lefelau aeddfedrwydd person 16 oed a rhai person 18 oed;

[7] Ar gyfer cyd-destun, gweler:

- *Senedd sy'n Gweithio i Gymru, Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad* (2017)
- Hunt, M. a Nickson, S. (2019). *Adnewyddu democrataidd: tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 13/2019
- McAllister L (Colofnau Wales Online ar ddemocratiaeth ac amrywiaeth). Ar gael yn: Why giving the vote to 16-year-olds can help resuscitate our failing democracy

- Os oedd gwleidyddion yn mynd i ddweud celwydd wrth bobl er mwyn ennill etholiad nid oedd yn gwneud gwahaniaeth mewn gwirionedd beth oedd yr oedran pleidleisio;

4.3 Fe wnaeth y rhai a oedd yn meddwl bod 18 oed yn oedran priodol i allu pleidleisio gyflwyno'r dadleuon canlynol:

- Ar yr oedran hwnnw efallai y byddai ganddynt ddealltwriaeth well am wleidyddiaeth ac y byddent yn ddigon aeddfed i gymryd pleidleisio o ddifrif, yr oedd rhai'n cydnabod nad oeddent yn ei wneud ar hyn o bryd. Fe wnaed y sylw bod cyd-ddisgyblion yn yr ysgol a oedd wedi ymddiddori mewn gwleidyddiaeth wedi cael eu hystyried yn 'esgymuniaid';
- Roedd yn ymddangos mai dyna oedd yr oedran cyfreithlon ar gyfer y rhan fwyaf o bethau mewn cymdeithas;
- Roedd pobl ifanc un ar bymtheg a dwy ar bymtheg i'w gweld fel pe baent yn poeni'n fwy am boblogrwydd a delwedd bersonol ac nid oeddent i'w gweld fel pe baent yn malio am faterion gwleidyddol. Roedd rhai'n meddwl na fyddai gan bobl 18 oed hyd yn oed ddiddordeb mewn materion gwleidyddol yn ôl pob tebyg;
- Fe allent ddal i fod yn rhai y mae'n rhy hawdd gwneud argraff arnynt ac yn rhy hawdd dylanwadu arnynt i allu gwneud eu penderfyniad hwy eu hunain wrth bleidleisio. Roedd rhai cyfranogwyr yn disgwyl y byddent yn pleidleisio dros yr un blaid â'u rhieni, er enghraifft.

**Tebygolrwydd o bleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru**

4.4 Ar ddechrau ac ar ddiwedd y trafodaethau gyda chyfranogwyr, gofynnwyd iddynt pa mor debygol ydoedd y byddent yn pleidleisio mewn etholiad ar gyfer cyngor lleol yng Nghymru pe baent yn gymwys. Cyfranogwyr 14-17 oed a gwladolion tramor oedd fwyaf tebygol o ddweud y byddent yn pleidleisio (pe gallent), gan roi cyfartaledd o 6 allan o 10 neu fwy ar y cyfan. Roedd y sgôr yr oeddent yn ei roi weithiau'n codi ychydig erbyn diwedd y drafodaeth. Eglurodd rhai fod yr ymchwil wedi rhoi rhywbeth iddynt gnoi cil arno neu eu bod wedi dod i wybod ychydig bach mwy a oedd wedi ennyn eu diddordeb. Roedd rhai wedi dod i'r casgliad bod rhywfaint o gyfrifoldeb arnynt i ddod i wybod mwy am y pwnc. Fe yr oedd un cyfranogwr wedi sylweddoli, 'nid fy mod i ddim yn malio; y ffaith amdani yw nad ydw


i'n gwybod digon amdano'. Roedd gwladolion tramor yn fwy tebygol o bwysleisio pwysigrwydd pleidleisio.

4.5 Nid yw'n syndod mai oedolion sydd wedi ymddieithrio oedd leiaf tebygol o ddangos diddordeb mewn pleidleisio. Fodd bynnag, roedd gan y rhai 18-24 oed (cymysgedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol) ychydig bach mwy o ddiddordeb yn y pwnc erbyn diwedd y drafodaeth. Roedd cyfranogwyr 25 oed neu hŷn ac o grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn dal i fod wedi ymddieithrio, gan roi sgoriau isel iawn ar ddechrau ac ar ddiwedd y trafodaethau. Dylid cofio hefyd bod cyfranogwyr 14-17 oed a gwladolion tramor o gymysgedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol.

**Rhwystrau a nodwyd i bleidleisio mewn etholiadau**

4.6 Roedd y rhwystrau i bleidleisio a ddisgrifiwyd gan gyfranogwyr yn gyson fwy neu lai ar draws mathau o gyfranogwyr, ni waeth pa un a oeddent yn gymwys i bleidleisio ai peidio, ond gyda lefelau amrywiol o bwyslais. Roeddent yn berthnasol i bleidleisio mewn etholiadau gwleidyddol yn gyffredinol yn hytrach na bod rhwystrau penodol yn codi ar gyfer gwahanol fathau o etholiadau yn y DU (lleol, y Cynulliad a'r DU). Mae'r diagram isod yn crynhoi'r rhwystrau hyn sydd hefyd wedi'u cydgysylltu â'i gilydd yn aml.


**Ffigur 4.1: Rhwystrau a nodwyd i bleidleisio mewn etholiadau**



4.7 Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn anghymwys i bleidleisio mewn etholiadau yng Nghymru ddychmygu beth fyddai'r rhwystrau pe gallent bleidleisio mewn etholiad yng Nghymru. Fe wnaeth gwladolion tramor ystyried unrhyw ymddygiadau pleidleisio blaenorol yn eu gwlad enedigol hefyd.

4.8 Y rhwystr allweddol ar draws pobl iau a gwladolion tramor oedd **diffyg gwybodaeth**. Er bod hyn yn llai blaenllaw fel rhwystr a nodwyd ymhlith cyfranogwyr 45 oed neu hŷn, roedd eu cynefindra cyfyngedig â gwleidyddiaeth a'u diffyg ymgysylltiad yn awgrymu ei fod yn rhwystr iddynt hwy hefyd. Roedd meddwl bod gwleidyddiaeth **yn anneniadol, yn ddiflas ac yn ddryslyd** yn rhwystrau cyffredin i bleidleisio hefyd. Roedd **dadrithiad** – bod pleidleisio'n peidio â gwneud unrhyw wahaniaeth a methu ag ymddiried mewn gwleidyddion – yn arbennig o amlwg ymhlith cyfranogwyr hŷn fel rhwystr allweddol. Roedd teimlo **wedi'u datgysylltu** yn bresennol fel rhwystr i bleidleisio ar draws pob math o gyfranogwr. Mae'r diagram isod yn dynodi cryfder pob rhwystr yn ôl math o gyfranogwr gyda chroesau mwy'n cynrychioli rhwystrau mwy.

**Ffigur 4.2: Rhwystrau a nodwyd i bleidleisio mewn etholiadau yn ôl oed y cyfranogwr a'r math o gyfranogwr**



4.9 Roedd y rhwystr a oedd yn ymwneud â **diffyg gwybodaeth sylfaenol** am wleidyddiaeth yn gyffredin yn y sampl ac weithiau'n peri **dryswch**. Roedd yn anodd i gyfranogwyr ddeall sut yr oedd gwleidyddiaeth yn gweithio. Nid oeddent yn gyfarwydd iawn â'r gwahanol bleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr, eu daliadau na sut yr oeddent yn eu cynrychioli. Roedd rhai'n rhagweld y byddai'n anodd gwybod sut i benderfynu dros bwy i bleidleisio. Roedd rhai'n cydnabod hefyd eu bod yn ei chael yn anodd deall beth oedd gwleidyddion yn ei ddweud ar yr achlysuron pan oeddent yn eu clywed yn y cyfryngau. Yn ôl rhai cyfranogwyr benywaidd 14-15 oed, roedd y diffyg gwybodaeth a'r dryswch yn teimlo'n 'frawychus' yng nghyd-destun bod â'r cyfrifoldeb hwn. Roedd peidio â gwybod unrhyw beth am y pwnc a'i gael yn ddryslyd hefyd yn ysgogi difaterwch ac ymdeimlad o beidio â bod yn gymwys i bleidleisio hefyd.

> *Dim yn deall digon i fod yn saff be o'n i'n votio am. A dwi'm isio jyst neud be mae pobl yn deu'tha fi i neud, achos dwi isio gwybod be dwi'n neud. Gwneud penderfyniad fy hun. (Benyw, 14-15, Caernarfon)*
>
> *B: Doeddwn i ddim hyd yn oed yn gwybod bod gan Gymru eu gwleidyddiaeth eu hunain. G: Ie, dydych chi ddim yn clywed llawer amdani. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (25-44, DE, Cardiff)*
>
> *Os nad ydw i'n gwybod pwy ydynt neu os nad ydw i'n gwybod beth yw eu polisi, neu os nad ydw i'n gwybod a yw eu polisi'n dda i'r tramorwyr [fyddwn i ddim yn pleidleisio]. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Abertawe)*

4.10 Pan soniodd cyfranogwyr fod gwleidyddiaeth yn **anneniadol** ac yn **ddiflas**, roedd yn ymddangos fel pe bai'n bresennol ochr yn ochr â diffyg dealltwriaeth a dryswch. Roedd y ffactorau hyn yn cyfuno i adael rhai cyfranogwyr yn teimlo'u bod wedi'u datgysylltu oddi wrth wleidyddiaeth. Dywedodd rhai ei bod yn anodd uniaethu â'r gwleidyddion yr oeddent yn eu gweld yn y cyfryngau, er enghraifft yn dadlau yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn ymddwyn mewn modd 'plentynnaidd'. Roedd cyfranogwyr yn meddwl bod gwleidyddion i gyd yr un fath a oedd hefyd yn ei gwneud yn anodd uniaethu â hwy. Roedd y sefyllfa barhaus gyda Brexit yn ychwanegu at y broblem, yn ôl rhai a oedd wedi hen alaru ar glywed amdano. Yn achlysurol, roedd cyfranogwyr yn cyfaddef mai'r rheswm yr oeddent yn cael gwleidyddiaeth yn anneniadol ac yn ddiflas oedd eu diogi hwy eu hunain.

4.11 Nid oedd cyfranogwyr iau a oedd yn teimlo wedi'u datgysylltu oddi wrth wleidyddiaeth yn teimlo bod unrhyw beth y gallent ei wneud gan nad oeddent yn gymwys i bleidleisio a chan nad oeddent yn teimlo bod gan unrhyw un ddiddordeb yn eu barn. Nid oedd rhai gwladolion tramor yn teimlo bod eu barn yn cael ei cheisio nac yn ddilys ac felly roeddent yn mynegi ymdeimlad tebyg o ddatgysylltiad. Mae'r mathau hyn o rwystrau'n dod i'r amlwg wrth archwilio rhwystrau i ymgysylltu dinesig ehangach hefyd (gweler adran 6).

> *Ar y foment, dwi'm yn meddwl llawer. Fel dwi'm yn cymryd cymaint â hynny o ddiddordeb achos ni'm yn gallu effeithio fe rŵan, a ni'm wedi gallu effeithio arno fe, so 'dan ni dim ond yn gallu mynd gyda be sy'n digwydd. (Gwryw, 16-17, mewn addysg, Aberystwyth)*

> *Rwy'n syml yn aros yn y cefndir. Rwy'n teimlo, wel dydw i ddim yn Gymraes nac yn Saesnes felly a yw wir o bwys beth yw fy marn i? (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o wlad yn yr UE, Y Trallwng)*

4.12 Roedd cyfranogwyr 25 oed neu hŷn yn fwy tebygol nag eraill o ddweud eu bod wedi'u datgysylltu am bod **pleidleisio'n peidio â gwneud unrhyw wahaniaeth**. Nid oedd rhai'n gweld unrhyw effaith amlwg ar eu bywydau beunyddiol o ganlyniad i etholiadau ac nid oeddent yn gallu gweld sut y byddai eu pleidlais yn gwneud unrhyw wahaniaeth. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn tueddu i beidio â darparu enghreifftiau penodol i ategu'r farn hon. Yn achlysurol, byddai cyfranogwyr yn dechrau egluro beth oedd yn sail i'r canfyddiad hwn: bod cynghorau lleol i'w gweld fel pe baent wastad yn brin o arian ni waeth pwy oedd wrth y llyw, bod yr un blaid i'w gweld fel pe bai wedi bod mewn grym am amser hir a bod Cymru ddim i'w gweld fel pe bai'n gwneud yn arbennig o dda fel cenedl. Unwaith eto, cafodd Brexit ei grybwyll fel rhesymeg bellach dros y rhwystr hwn yn yr ystyr bod y DU yn dal heb adael yr UE. Roedd dadrithiad rhai gwladolion tramor wedi codi gyntaf yn eu gwlad enedigol (e.e. Yr Eidal, Yr Almaen, Gwlad Groeg) ac roeddent yn dal i arddel y farn hon.

> *Rwy'n meddwl, wyddoch chi, nad yw'n ymwneud yn gymaint â phleidleisio mewn etholiad lleol neu gyffredinol neu, wyddoch chi, pwy bynnag ydyw. Dyw eich pleidlais, mewn ffordd, ddim yn cael ei chydnabod. Felly'r tro cyntaf erioed yn fy mywyd i mi bleidleisio oedd dros y peth Brexit yma. Ac fe bleidleisiais o blaid gadael ac fe enillodd y rhai a oedd o blaid gadael, on'd do?*

*Ac mae'n dal i rygnu ymlaen, on'd yw e? (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 45+, DE, Torfaen)*

*Rwyf wedi clywed bod wastad un llywodraeth yn [ardal y cyngor] ac nad yw i'w weld fel pe bai'n newid. . . . gyda'r cynghorau lleol. Ac fe siaradon ni fel cymdogion amdano ac mae'n ymddangos fel pe bai [ardal y cyngor] wastad yng nghefn y rhes lle mae cyllid yn y cwestiwn. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o wlad yn yr UE)*

4.13 Gyda chyswllt weithiau â pheidio â gweld unrhyw beth yn newid yn ôl pob golwg, roedd **diffyg ymddiriedaeth** mewn gwleidyddion yn rhwystr amlwg ymhlith cyfranogwyr 25 oed a hŷn. Roedd canfyddiadau am wleidyddiaeth y DU yn cael effaith negyddol ar ganfyddiadau ar bob lefel. Roedd gwleidyddion yn cael eu cysylltu ar y cyfan ag addewidion heb eu cyflawni (gyda Brexit yn cael ei grybwyll fel enghraifft) a llygredigaeth i ryw raddau, gyda rhai'n dal i gofio sgandal treuliau ASau ryw ddeng mlynedd yn ôl. Roedd achos mwy diweddar o hawliadau ffug am dreuliau yng Nghymru yn flaenllaw ym meddyliau rhai cyfranogwyr hŷn hefyd. Daeth i'r amlwg ymhlith gwladolion tramor y gallai llygredigaeth wleidyddol hirdymor yn eu gwlad enedigol beri iddynt fod ag amheuon ynglŷn â gonestrwydd gwleidyddion hefyd.

*'Sna'm point, . . . hanner y pethau maen nhw 'di gaddo ddim y digwydd. (Benyw, 25-44, Caernarfon)*

*Dweud celwydd drwy'r amser. Mae Brexit wedi bod gyda ni yn awr am y pedair blynedd ddiwethaf; dydyn nhw ddim hyd yn oed yn gallu gwneud penderfyniad ynglŷn â hynny. [...] Mae'n nonsens, ac fel [...] Irac; faint o Fwslimiaid gafodd eu lladd? Rydw i'n Fwslim, felly mae'n effeithio arnaf yn y ffordd yna. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 25-44, DE, Caerdydd)*

*Fel Cwrd, . . . rwyf wedi gweld cymaint o bethau'n digwydd yn ddiweddar. Wedyn sut y mae gwleidyddion a gwleidyddiaeth yn effeithio ar y bobl yn yr ardal, yn enwedig yn y Dwyrain Canol. Fel yn ddiweddar yn Syria, ond mewn ardaloedd eraill hefyd. A dyna hefyd, rywsut, pam y collais hyder mewn gwleidyddion a'r hyn y maent yn ei ddweud, a'r ffaith na fyddant yn newid mewn gwirionedd. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Caerdydd)*

**Ysgogiadau i bleidleisio**

4.14 Mae Adran 6 yn rhoi sylw manwl i'r hyn a allai ysgogi pobl sydd wedi ymddieithrio yn ogystal â chyfranogwyr mwy derbyngar i bleidleisio mewn etholiadau. Cafodd yr oedolion a oedd wedi ymddieithrio eu recriwtio fel rhai nad oeddent wedi pleidleisio yn y gorffennol ac a oedd yn amau a fyddent yn pleidleisio yn y dyfodol. Ar adegau, roedd cyfranogwyr 18-24 oed yn meddwl y gallent fod yn fwy tebygol o bleidleisio mewn etholiad ar lefel y DU am ei fod yn denu mwy o sylw yn y cyfryngau ac i'w weld fel pe bai'n bwysicach. Roedd cyfranogwyr yn teimlo ar y llaw arall bod etholiadau cynghorau a'r Cynulliad Cenedlaethol yn eithaf isel eu proffil ac felly'n llai pwysig.

4.15 Fodd bynnag, roedd canfyddiad achlysurol ymhlith pobl 16-24 oed y byddai etholiadau lleol mwy na thebyg yn cael mwy o effaith uniongyrchol ar eu bywydau. Fodd bynnag, roedd y diffyg gwybodaeth a diddordeb mewn pleidleisio, ymhlith rhwystrau eraill, yn golygu weithiau eu bod yn tueddu i beidio â phleidleisio.

4.16 Roedd nifer fach o gyfranogwyr wedi pleidleisio yn refferendwm yr UE am ei fod wedi teimlo fel eiliad arwyddocaol. Roedd ysgogiadau penodol i bleidleisio'n cynnwys:

- Pwysau teuluol;
- Gweld postiadau 'hiliol' ar Facebook mewn perthynas â Brexit a phenderfynu pleidleisio dros yr opsiwn 'nad oedd yn hiliol';
- 'Cyflwr y wlad', 'y cyfoethog yn mynd yn gyfoethocach', tlodi cynyddol, digartrefedd a mwy o wladolion tramor yn dod i mewn i'r DU;
- Arbed arian i'r DU a'r GIG a fyddai wedi mynd i'r UE fel arall;
- Ei bod yn well ar Gymru fel aelod o'r UE o ystyried y cyllid yr oedd yn ei gael.

4.17 Ni chafodd gwladolion tramor eu recriwtio fel oedolion a oedd wedi ymddieithrio ac roeddent yn fwy tebygol o bwysleisio pwysigrwydd pleidleisio fel modd i leisio'u barn. I rai, roedd hyn yn dal yn bwysig hyd yn oed os oeddent yn amau uniondeb y broses yn eu gwlad enedigol. A hwythau bellach yn byw yng Nghymru, roedd rhai a oedd wedi byw mewn cyfundrefnau llygredig yn teimlo y byddai'r broses yn llawer mwy dibynadwy.

> *Dyma'r ffordd i greu newid. Er enghraifft, rydych yn pleidleisio dros y bobl a all greu newid yn eich tyb chi neu sy'n meddwl mewn ffordd debyg i chi neu'n*

*cyflawni'r hyn yr ydych chi'n gobeithio amdano neu'n gweithio drosto. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Abertawe)*

**Ymwybyddiaeth a chanfyddiadau am y broses bleidleisio**

4.18 Ni ddaeth y broses bleidleisio ei hun i'r amlwg fel rhwystr i bleidleisio ar y cyfan er ei bod yn amlwg bod cyfranogwyr yn aml yn anghyfarwydd â sut yr oedd y system yn gweithio. Y rhwystrau mwy sylfaenol a ddisgrifir uchod oedd y materion blaenaf. Mewn ychydig o achosion, dywedodd cyfranogwyr a oedd wedi'u dadrithio gan wleidyddiaeth ac yn ddifater ynglŷn â hi y byddent yn pleidleisio pe bai arnynt eisiau gwneud ac y byddai'n weddol syml gwneud hynny. Roedd rhai hefyd yn ymwybodol bod gorsafoedd pleidleisio'n agor yn gynnar ac yn cau'n hwyr a oedd o gymorth i wneud y broses yn gyfleus.

*Dydw i ddim yn meddwl mai'r ffordd yr ydych yn pleidleisio [sy'n ein hatal rhag pleidleisio]. Fe allech chi bleidleisio drwy'r post, mae hynny'n ddigon syml. Gallwch fynd rownd y gornel, mae un rownd y gornel oddi wrthyf fi. Nid yw'n golygu llawer o ymdrech, yw e? (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 25-44, DE, Caerdydd)*

*Dwi'n meddwl mae o'n hawdd, yndi. Ond eto wedyn, 'sach chdi'm yn gwybod pwy i voteio i, na. (Benyw, 25-44, DE, Caernarfon)*

*Pe bai arnaf eisiau pleidleisio, byddwn yn gwneud ymdrech ac yn mynd ni waeth beth fyddai'r amgylchiadau. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 45+, DE, Y Drenewydd)*

4.19 Roedd cyfranogwyr iau'n tueddu i beidio â theimlo'n barod iawn i bleidleisio. Yn ogystal â'r diffyg gwybodaeth eang a ddisgrifir uchod (a oedd hefyd yn rheswm dros beidio â theimlo'n barod ymhlith cyfranogwyr hŷn), roedd rhai cyfranogwyr 14-17 oed yn ansicr pa mor rwydd neu anodd fyddai i fwrw pleidlais. Fodd bynnag, nid oedd yn fater a oedd o bwys dybryd ar y cyfan. Fel y dyfalodd un cyfranogwr, byddai mwy na thebyg yn golygu dim byd mwy na 'rhoi tic mewn blwch'. Roedd peth ymwybyddiaeth bod pleidleisiau fel arfer yn cael eu bwrw mewn lleoliad yn y gymuned leol. Roedd rhai cyfranogwyr wedi eu gweld yn y gymuned ac wedi bod i'r orsaf bleidleisio o bryd i'w gilydd gyda'u rhieni pan oeddent yn iau. Fodd bynnag, nid oedd rhai cyfranogwyr iau a gwladolion tramor yn gwybod ble y byddai angen

iddynt fynd i fwrw eu pleidlais neu roeddent yn aneglur beth yn union oedd yn ei olygu.

*Fe allwch gerdded i eglwys, pwy bynnag sy'n gwneud y peth pleidleisio, rhoi tic mewn blwch a'i roi yn y peth. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 16-17, ddim mewn addysg, Caerdydd)*

*Mae yna beth yr ydych yn mynd i mewn iddo, wn i ddim beth yw'r enw arno. . . . Allwch chi ddim siarad, mae'n rhaid i chi ddewis un ac yna gadael yn y bôn, a pheidio â trafod y peth. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 14-15, Y Drenewydd)*

4.20 Roedd llai o ymwybyddiaeth o'r angen i gofrestru i bleidleisio a'r broses ar gyfer gwneud hynny, yn enwedig ymhlith cyfranogwyr ifanc er bod y rhai a oedd yn ymgysylltu'n fwy yn wleidyddol yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol y byddai angen iddynt gofrestru yn gyntaf. Er enghraifft, dywedodd nifer fach o bobl ifanc 16-17 oed eu bod yn gwybod bod rhaid iddynt gofrestru am eu bod wedi clywed hynny gan eu rhieni, wedi cael llythyr am gofrestru neu wedi dod ar draws hysbyseb ar Spotify i gofrestru i bleidleisio. Roedd y perygl o gael dirwy yn ôl pob golwg am beidio â chofrestru wedi ysgogi un neu ddau i gofrestru ond nid oeddent wedi mynd ymlaen i bleidleisio. Roedd cyfranogwyr hŷn yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r angen i gofrestru i bleidleisio, gyda chwpl wedi gwneud yr ymdrech i ddarganfod hynny a chofrestru fel eu bod yn gallu pleidleisio yn refferendwm yr UE.

*Fe wnes i gofrestru . . . am fy mod yn ofni'r ddirwy yna ond es i ddim amdani erioed [pleidleisio]; ro'n i'n syml yn meddwl nad oedd pwynt, does gen i ddim amynedd. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 18-24, ABC1, Torfaen)*

*Dwi erioed 'di cael, 'sti. Dwi erioed 'di cael llythyr na'm byd. 'Sneb erioed 'di gofyn wrtha i fynd i nunlla i voteio. (Gwryw, 25-44, DE, Caernarfon)*

4.21 Pan gawsant eu cynorthwyo â chrynodeb o'r broses bleidleisio gyfredol, roedd rhai'n meddwl ei bod yn swnio'n foddhaol, yn weddol hawdd ac yn 'hygyrch'. Weithiau, fodd bynnag, roedd cyfranogwyr iau yn teimlo'i bod yn swnio'n weddol 'hen ffasiwn' ac roeddent wedi tybio y byddai pleidleisio ar-lein yn opsiwn.

**Cyfrifoldeb am helpu pobl i deimlo'n barod i bleidleisio**

4.22 Roedd cyfranogwyr yn tueddu i feddwl y dylai'r cyngor lleol fod yn gyfrifol am helpu pobl i deimlo'n barod i bleidleisio mewn etholiadau lleol; neu bwy bynnag yr oedd eisiau eu pleidleisiau arnynt. Pan gawsant eu cynorthwyo, roedd rhai'n teimlo bod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Lywodraeth Cymru rôl o ran etholiadau'r Cynulliad. Roedd pobl ifanc weithiau'n credu bod eu rhieni'n rhannol gyfrifol hefyd. Roedd ysgolion yn cael eu hamlygu'n rheolaidd hefyd fel sefydliadau a oedd â chyfrifoldeb hollbwysig, ehangach gydag addysg am y pwnc. Pwysleisiodd rhai gwladolion tramor a phobl ifancach eu bod yn gyfrifol am wneud eu hymchwil eu hunain a dod i wybod mwy ynghyd â'r cyrff a grybwyllir uchod.

**Dylanwad teuluol ar ganfyddiadau am wleidyddiaeth a phleidleisio**

4.23 Ar y cyfan, nid oedd gwleidyddiaeth yn cael ei thrafod ymhlith y teulu. Pan ddywedodd cyfranogwyr iau fod trafodaethau'n digwydd yn y cartref, nid oeddent yn meddwl bod y sgyrsiau'n adeiladol iawn. Roedd enghreifftiau'n cynnwys dadleuon rhwng aelodau hŷn o'r teulu, teimlo'u bod yn cael darlith a pheidio â deall yr hyn yr oedd rhiant yn ei ddweud neu riant i'w weld fel pe bai'n teimlo'n ddryslyd hefyd. Roedd y profiadau hyn yn dylanwadu ar ganfyddiadau cyfranogwyr am wleidyddiaeth, gan achosi i rai ei chael yn anneniadol a pheidio â chymryd sylw mwyach. Mewn enghreifftiau eraill, roedd rhieni wedi ceisio rhoi pwysau ar gyfranogwyr i bleidleisio yn yr un ffordd ag yr oeddent hwy'n ei wneud.

> *Mae fy mam wedi ceisio'i esbonio i mi ond . . . dydw i ddim yn deall ac mae hi'n rhoi'r ffidil yn y to wedyn am nad oes amynedd ganddi. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 16-17, ddim mewn addysg, Abertawe)*

> *Mae fy mam yn pleidleisio dros y Blaid Lafur ac mae fy nhad yn pleidleisio dros y Ceidwadwyr, ond mae fy mam wastad wedi fy ngwthio ac mae hi'n dweud, 'Pleidleisia dros y Blaid Lafur, pleidleisia dros y Blaid Lafur', . . . . rwy'n rhoi'r ffidil yn y to. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 18-24, C2DE, Wrecsam)*

4.24 Dywedodd rhai cyfranogwyr iau nad oedd eu rhieni'n trafod gwleidyddiaeth, nad oeddent i'w gweld fel pe bai diddordeb ganddynt ac nad oedd yn hysbys a oeddent yn pleidleisio.

*G: Dydyn nhw ddim wir yn egluro [am wleidyddiaeth]. G: Dydyn nhw ddim wir yn siarad. C: A sut wyt ti'n teimlo ynglŷn â hynny? G: Rwy'n iawn. Nid oes a wnelo â mi. (Gwryw, 14-15, Torfaen)*

4.25 Rheswm pellach dros beidio â thrafod gwleidyddiaeth y DU na Chymru gartref i rai gwladolion tramor oedd nad oedd yn teimlo'n berthnasol iawn iddynt oherwydd eu hawliau cyfyngedig yn y DU.

4.26 O bryd i'w gilydd, eglurodd pobl ifanc fod rhieni'n trafod materion gwleidyddol a phleidleisio gyda hwy gan gynnwys pwysigrwydd gwneud eich penderfyniadau eich hun ynglŷn â phwy i bleidleisio drostynt. Mewn un enghraifft, roedd llanc 14 oed yn ymwybodol o effaith negyddol Brexit ar fusnes manwerthu ei rieni.

*Maen nhw'n deu'tha fi pam, achos fatha bod nhw isio newid y wlad er mwyn y gorau, ond 'dyn nhw'm yn deu'tha fi pwy maen nhw'n voteio am achos bod nhw isio fi gael fatha dewis fy hun ar be dwi isio pleidleisio pan dwi'n hŷn. (Benyw, 14-15, Caernarfon)*

4.27 Eglurodd rhai gwladolion tramor bod trafod gwleidyddiaeth a phleidleisio'n draddodiadau teuluol cryf. Roedd diwrnod yr etholiad yn eu gwlad enedigol yn ddigwyddiad mawr gyda'r teulu'n dod ynghyd i fynd i bleidleisio ac yna'n rhannu hynny ar y cyfryngau cymdeithasol (e.e. yn India, Y Traeth Ifori, Mecsico a Moldofa).

*Rydym yn codi am chwech yn y bore, yn gwisgo ac yn mynd i'r ganolfan bleidleisio. A phan ydynt yn codi'r arwydd a ninnau wedi pleidleisio, rydym yn lanlwytho ar y cyfryngau cymdeithasol, fi ac aelodau fy nheulu ein bod ni i gyd wedi pleidleisio. . . . Mae'r teulu cyfan yn ymgynnull ac rydym yn mynd yno i bleidleisio. (Gwryw, gwladolyn un o wledydd y Gymanwlad, Caerdydd)*

**Gwladolion tramor a chymhwystra i bleidleisio**

4.28 Roedd gwladolion tramor yn tueddu i fod yn ymwybodol o'u cymhwystra i bleidleisio mewn etholiadau yn y DU, neu i ddyfalu'n gywir, er ei fod yn syndod i gwpl o gyfranogwyr o'r UE nad oeddent yn gymwys i bleidleisio mewn etholiad cyffredinol. Roedd ymwybyddiaeth gyfyngedig o etholiadau Cynghorau a'r Cynulliad yn golygu nad oedd rhai wedi rhoi rhyw lawer o feddwl iddo'n flaenorol. Roeddent felly weithiau'n ansicr ynghylch eu hawliau pleidleisio. Roedd rhai cyfranogwyr o wledydd y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad yn tybio na fyddent yn gymwys i bleidleisio oni bai eu bod yn dod yn ddinasyddion Prydeinig. Roedd rhai'n meddwl

efallai y byddai dinasyddion yr UE a'r Gymanwlad yn gallu pleidleisio. Er hynny, roedd yn aml yn wir nad oedd hawliau pleidleisio yn y DU yn glir iawn i gyfranogwyr o wledydd y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad.

> *Mae trigolion y Gymanwlad yn gymwys ar gyfer popeth yn y DU ond ceir meini prawf o dair a phum mlynedd. Mae angen i chi fod yma am dair blynedd neu bum mlynedd er mwyn cael popeth. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, gwladolyn tramor o un o wledydd y Gymanwlad, Caerdydd)*

> *Rwy'n meddwl bod pobl o bob rhan o'r byd, ond sydd â phasbort Prydeinig. Rwy'n meddwl, eu bod yn gallu pleidleisio. (Gwryw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Caerdydd)*

4.29 Roedd cyfranogwyr weithiau'n cyfeirio at ffurflen, mwy na thebyg y Ffurflen Ymholiad Aelwyd, yr oeddent yn ei chael gan y cyngor lleol. Roedd rhai wedi dod yn gyfarwydd â hi dros y blynyddoedd yr oeddent wedi bod yng Nghymru. Roedd rhai, fodd bynnag, yn ei chael yn ddryslyd ac yn meddwl tybed a oedd yn golygu eu bod yn gymwys i bleidleisio am eu bod wedi'i chael. Roedd enghreifftiau o'i chwblhau, ei hanwybyddu, ac ymweld â'r llyfrgell leol i geisio help i ddeall ei diben.

> *Gan ein bod yn cael llythyr oddi wrth y cyngor bob blwyddyn yn dweud bod angen iddynt wybod pwy sy'n byw yma, pwy sy'n gymwys i bleidleisio. . . . wn i ddim [beth sy'n digwydd wedi hynny]. Fel arfer, rydym yn llenwi'r ffurflen ac yn ei dychwelyd, a dyna'r cyfan. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o wlad y tu llan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Abertawe)*

> *Dydyn ni ddim yn ymwybodol oherwydd weithiau rydym yn cael gohebiaeth am etholiadau. . . . At feddiannydd y cyfeiriad hwnnw, felly dydyn ni ddim yn ymwybodol, ai i ni y mae? A oes gennym ni'r hawl i bleidleisio, na? (Gwryw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Abertawe)*

4.30 Roedd rhai cyfranogwyr o wledydd y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad yn teimlo rhwystredigaeth nad oeddent yn gallu pleidleisio mewn unrhyw etholiadau yng Nghymru (nac yn y DU) o ystyried faint o dreth yr oeddent yn ei thalu a'u bod yn rhan o'r gymuned leol. Nid oedd i'w weld yn deg bod gwladolion tramor eraill yn gallu pleidleisio, ond eu bod hwy'n methu er nad oedd gwahaniaeth amlwg.

> *Beth yw'r gwahaniaeth rhyngof fi a rhywun a aned yn Ne Affrica neu India? Rydw i yma, rwy'n gweithio yn y gymuned hon. Fe hoffwn i gyfrannu at y*

*gymuned. Pam na ddylwn i fod yn gymwys i bleidleisio o leiaf ar lefel leol? (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Caerdydd)*

4.31 Roedd cyfranogwyr o wledydd y tu allan i'r UE a'r tu allan i'r Gymanwlad at ei gilydd yn gefnogol i gynllun Llywodraeth Cymru i roi'r hawl i ddinasyddion o wledydd y tu allan i'r Gymanwlad a'r tu allan i'r UE sy'n byw yng Nghymru bleidleisio mewn etholiadau cynghorau lleol[8]. Dywedwyd ei fod yn 'dda iawn', yn 'gyffrous' ac yn 'benderfyniad i'w groesawu'. Roeddent yn rhagweld y byddai'n eu helpu i fod â llais ac i deimlo bod ganddynt fwy o gysylltiad â'u cymuned leol.

*Rwy'n meddwl bod hynny'n gyffrous. . . Mae'n gwneud i chi deimlo eich bod chithau'n rhan o'r gymuned hon. . . . Er enghraifft, y tro diwethaf rwy'n credu i mi gael llythyr oddi wrth y Cyngor Dinas ac yr oedd yn rhaid i mi fynd ar-lein at y wefan, fe roddais fy ngwybodaeth i mewn – Iran. Wedyn yn sydyn, 'Dydych chi ddim yn cael pleidleisio'. Ac wel rydych chi'n teimlo, o'r gorau, . . . oherwydd mae'n edrych fel eu bod yn dweud, 'Dydych chi ddim yn rhan o'r gymuned hon'. Ond os mai rhywbeth fel hyn yw'r cynllun, rwy'n meddwl ei fod yn gyffrous. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Caerdydd)*

*Yma fel yr wyf fi'n deall mae cymunedau mawr o Affrica, o Asia, nad ydynt yn rhan o'r Gymanwlad. Felly mae eu heithrio nhw rhag cael gwrandawiad, yn enwedig i bobl ifanc, wir, wir [oedi], mae'n broblem. (Gwryw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Caerdydd)*

4.32 Fodd bynnag, roedd cyfranogwr Tsieineaidd wedyn yn pryderu na fyddai pobl fel hi'n barod gan nad oeddent yn deall y system na phwy ddylent bleidleisio drostynt. Nid oedd ganddi unrhyw brofiad o bleidleisio erioed yn Tsieina felly efallai na fyddai pobl yn rhoi rhyw lawer o feddwl iddo, yn ôl ei rhesymeg hi. Nid oedd ei phartner, a oedd wedi cael dinasyddiaeth Brydeinig, wedi teimlo'n barod i bleidleisio yn etholiadau'r UE oherwydd diffyg dealltwriaeth a diddordeb.

[8] Yn wreiddiol fe wnaeth y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) newidiadau i gyfraith etholiadol i alluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad. Cafodd gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ar ôl i'r ymchwil hon ddechrau eu cytuno i alluogi dinasyddion tramor cymhwysol i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad hefyd. Mae rhoi'r hawl i ddinasyddion tramor cymhwysol bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn gyson â chynigion Llywodraeth Cymru i estyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i ddinasyddion tramor cymhwysol. Roedd amseriad yr ymchwil hon yn golygu na chafodd yr opsiwn hwn i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad ei drafod gyda gwladolion tramor.

## 5. Ymgysylltu dinesig

5.1 Mae'r bennod hon yn archwilio canfyddiadau eang cyfranogwyr am eu cymuned leol, unrhyw brofiad o geisio codi mater neu ymwneud â gweithgarwch lleol, a rhwystrau i wneud hynny. Mae hefyd yn rhoi sylw i weithgareddau dinesig llofnodi deisebau a gwirfoddoli:

- Roedd yn amlwg bod gan gyfranogwr feddwl mawr o'r gymdogaeth yr oeddent yn byw ynddi;
- Fe wnaethant nodi ystod o faterion cymunedol oedd â lefelau amrywiol o bwysigrwydd iddynt. Materion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol oedd fwyaf amlwg;
- Yn aml, nid oedd gweithredu ar fater na chwarae rhan yn y gymuned yn cael eu hystyried oni bai bod effaith uniongyrchol ar gyfranogwyr;
- Roedd yn aml yn aneglur i gyfranogwyr sut i godi mater, rhoi barn neu newid unrhyw beth;
- Roedd y potensial ar gyfer mwy o ymgysylltu'n cael ei ddynodi gan weithgarwch cyfredol o ran llofnodi deisebau a pheth gweithgarwch gwirfoddol.

**Canfyddiadau am eu cymuned leol**

5.2 Roedd cyfranogwyr yn gallu nodi agweddau cadarnhaol ar y gymuned yr oeddent yn byw ynddi. Themâu cyffredin oedd gwerthfawrogi'r ymdeimlad o gymuned ymhlith pobl gan gynnwys, i rai, y croeso a geir fel gwladolyn tramor; a'r amgylchedd gyda mynediad at fannau gwyrdd. Aeth rhai cyfranogwyr ymlaen i amlygu mynediad at amwynderau lleol, teimlo'n ddiogel, amrywiaeth, yr ysgolion lleol a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau pob dydd.

5.3 Cafodd materion gyda'u cymdogaeth leol eu nodi hefyd, yn anad dim ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd hyn yn bennaf yn cynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddu lefel isel, sbwriel a baeddu gan gŵn. Tynnodd rhai oedolion a oedd wedi ymddieithrio a gwladolion tramor sylw at faterion economaidd (diffyg opsiynau gwaith, cyflog isel a stryd fawr sy'n dirywio). Ymhlith pobl ifanc, mater arall gyda'r gymuned leol oedd diffyg pethau iddynt eu gwneud. Pwynt negyddol terfynol a nodwyd ymhlith rhai gwladolion tramor oedd nad oeddent wastad yn teimlo bod llawer o groeso iddynt nac yn ddiogel.

**Codi mater a chwarae rhan yn y gymuned leol**

5.4 Roedd cryfder teimlad ynglŷn â materion o'r fath yn amrywio ond roedd rhai cyfranogwyr yn llafar iawn o ran amlygu agweddau llai cadarnhaol ar eu cymdogaeth. Pan gawsant eu holi am gymryd unrhyw gamau a oedd yn ymwneud â

mater yn y gymuned neu leisio'u barn, fodd bynnag, roeddent yn tueddu i beidio â bod wedi cymryd unrhyw gamau neu fod wedi lleisio eu barn wrth y rhai a allai fod yn gyfrifol neu â'r gallu i helpu. Y prif resymau a roddwyd dros beidio â bod wedi chwarae rhan neu weithredu oedd nad oedd yn amlwg sut i wneud ac y byddai'n anodd, mwy na thebyg; ac nad oedd wedi croesi eu meddyliau i wneud hynny neu nad oedd yn ymddangos bod angen mawr i weithredu. Roedd pobl ifancach ychydig yn fwy tebygol o deimlo'i bod yn bwysig chwarae rhan mewn egwyddor ond roeddent yn llai tebygol o fod wedi codi mater.

5.5 Roedd natur rhai o'r materion a amlygwyd fel ymddygiad gwrthgymdeithasol yn golygu nad oedd rhai cyfranogwyr yn meddwl bod rhyw lawer y gallent ei wneud yn ei gylch. Roedd rhwystrau pellach i ymgysylltu dinesig ehangach yn cynnwys:

- Peidio â disgwyl cael gwrandawiad pe baent yn codi mater;
- Peidio â theimlo'n gymwys i leisio barn, fel person ifanc neu wladolyn tramor;
- Diffyg hyder i godi mater neu chwarae rhan yn y gymuned, fel gwladolyn tramor.

*Os ni'n dweud barn ni, does neb yn really gwrando i ni. (Benyw, 18-24, C2DE, Rhydaman)*

*G: Ddim yn gwybod gyda phwy i siarad. G: Rhy ifanc. . . . G: Rwy'n teimlo, am mai plant ydym, nad yw pobl yn gwrando arnom. Nid yw ein barn yn cyfrif. C: A oes unrhyw beth sydd wedi digwydd i wneud i ti deimlo felly neu ai dim ond canfyddiad cyffredinol ydyw? G: Dim ond rhywbeth cyffredinol. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 14-15, Torfaen)*

*Byddwn i'n ofni adwaith pobl leol os nad ydynt yn hapus gyda'r hyn rwy'n ei ddweud. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o wlad yn yr UE, Wrecsam)*

5.6 O ystyried y rhwystrau hyn a ddaeth i'r amlwg ar lefel leol, nid oedd wedi croesi meddyliau cyfranogwyr ar y cyfan i ystyried materion ar lefel Cymru neu sut y gallent chwarae rhan.

5.7 Yn anfynych, roedd achosion lle'r oedd cyfranogwyr wedi codi mater, wedi lleisio'u barn neu wedi chwarae rhan yn y gymuned leol. Roedd enghreifftiau o gyfranogwyr yn gweithredu ar faterion a amlygwyd ganddynt yn eu cymunedau fel arfer yn digwydd pan oedd effaith uniongyrchol arnynt: ymddygiad gwrthgymdeithasol,

digwyddiad troseddol, mater iechyd, materion tai, casglu gwastraff, tipio anghyfreithlon neu sbwriel a baeddu gan gŵn.

5.8 Yn yr achosion hyn, roedd cyfranogwyr wedi cysylltu â'r heddlu, y cyngor lleol, 'gwasanaethau cymdeithasol', cynghorydd lleol, AS lleol a hynafgwyr y gymuned. Felly roedd cyfranogwyr wedi dod o hyd i fodd i gysylltu â sefydliad a oedd yn gyfrifol am y mater yn eu tyb hwy ond gyda chanlyniadau cymysg.

5.9 Roedd canlyniadau cadarnhaol yn cynnwys ymateb effeithiol gan yr heddlu, cyfarfod defnyddiol ar gyfer preswylwyr y cyngor a chynghorydd ac AS yn rhoi peth wmbredd o gymorth. Mewn achosion eraill, serch hynny, nid oedd unrhyw newid wedi cael ei nodi ynglŷn â chŵyn neu nid oedd unrhyw gymorth wedi cael ei roi (e.e. ceisio trefnu digwyddiad elusennol, cymydog gwrthgymdeithasol, gwasanaethau gwastraff, gwasanaethau tai, tipio anghyfreithlon a baeddu gan gŵn).

5.10 Roedd gwladolion tramor yn fwy tebygol nag eraill i fod wedi codi mater ond nid oedd hyn wastad yn cydberthyn â'u lefelau ymgysylltu yn eu gwlad enedigol. Roedd rhai wedi ymgysylltu'n helaeth ac wedi cymryd rhan mewn protestiadau gwleidyddol, wedi llofnodi deisebau ac wedi gwirfoddoli yn eu gwlad wreiddiol. Nid oedd rhai, er enghraifft yn Tsieina ac Iran, wedi gallu teimlo'u bod yn cael eu cynnwys ('dydyn ni ddim yn cael pleidleisio, does gennym ni ddim hawliau') nei roedd wedi bod yn rhy beryglus gwneud hynny. Yn y DU, fodd bynnag, roeddent wedi cysylltu â'r cyngor neu'r heddlu pan oedd angen iddynt. Roedd wedi taro nifer fach o wladolion tramor nad oedd dinasyddion Prydeinig i'w gweld fel pe baent yn malio rhyw lawer am y lle yr oeddent yn byw (e.e. faint o sbwriel sydd) nac yn cydnabod pwysigrwydd pleidleisio.

5.11 Roedd rhai wedi llofnodi deisebau: deisebau ar-lein trwy Facebook neu negeseuon e-bost oddi wrth change.org[9] oedd y rhain gan mwyaf. Roedd ar-lein yn gyfleus ac yn darparu ar gyfer ymgysylltu mympwyol. Roeddent yn adweithio gan mwyaf i'r hyn yr oeddent yn dod ar ei draws yn hytrach na chwilio am gyfleoedd i lofnodi deisebau ac nid oedd yr enghreifftiau a roddwyd yn lleol i Gymru fel arfer (e.e. lles anifeiliaid, Brexit, y newid yn yr hinsawdd a defnyddio plastig, Donald Trump yn ymweld â'r DU, treth ar gwrw, oedran pensiwn y wladwriaeth a gweithredu milwrol Twrci yn erbyn y Cwrdiaid). Roedd enghreifftiau o ddeisebau mwy lleol yn ymwneud ag

[9] Gweler change.org

achos alltudio, cadw llyfrgell neu dafarn ar agor, gwarchod Murlun Tryweryn[10], darparu cyfleusterau parcio ar gyfer mosg ar ddyddiau Gwener, gwasanaethau bysiau wedi'u lleihau, ailwampio parc sglefrio lleol, materion a oedd yn gysylltiedig ag ysgol a gostegu traffig. Roedd cyfranogwyr 45 oed neu hŷn yn llai tebygol o fod wedi llofnodi deiseb.

*G: Ar Facebook ydoedd. Fe welais ar ôl i rywun ei rhannu. . . . B: Roedd llawer o rai am anifeiliaid wedi'u hanafu'n cael eu postio ar Facebook felly allwch chi ddim sgrolio heibio heb lofnodi un. . . . B: Does gen i ddim [beth rwyf wedi'i lofnodi]. Mae'n nhw'n ymddangos yn ddisymwth; os ydw i'n ei hoffi, rydw i'n ei llofnodi. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (18-24, C2DE, Wrecsam)*

*Wnes i neud hynna pan wnaeth wal Tryweryn gael ei fandaleiddio efo Elvis a phethau. Ac wedyn o'n i fatha ar Facebook, 'Sign this petition', ac oedd 'na article 'di cael ei gysylltu hefo hwnna. (Benyw, 14-15, Caernarfon)*

5.12 Roedd rhai cyfranogwyr wedi gwirfoddoli yn eu cymuned leol hefyd a hynny am nifer o resymau. I rai roedd yn fodd i roi rhywbeth yn ôl i sefydliad a oedd wedi helpu'r teulu mewn rhyw ffordd. Roedd hefyd yn helpu cyfranogwyr i deimlo'n well amdanynt hwy eu hunain. Roedd rhai'n cyfaddef mai un o'r ysgogiadau allweddol ar gyfer hyn oedd y byddai'n gwella'u CV a'u siawns o gael swydd â thâl. Mantais arall oedd yr effaith gadarnhaol yr oedd yn ei chael ar iechyd a llesiant meddyliol, yn ôl rhai cyfranogwyr hŷn. Hefyd, i rai gwladolion tramor roedd gwirfoddoli'n llwybr i mewn i'r gymuned ac yn eu helpu i deimlo'u bod yn cael eu derbyn yn fwy. O bryd i'w gilydd, roedd y ffaith bod mater yn agos at eu calonnau'n ddigon i wirfoddoli ar gyfer cwpl o gyfranogwyr yn eu harddegau a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd codi sbwriel. Roedd cyfranogwyr yn gallu gweld neu deimlo'r gwahaniaeth yr oedd gwirfoddoli'n ei wneud.

*Y ffaith fy mod yn gwybod bod ar bobl angen [banciau bwyd] a bydd yn mynd i'r sianel gywir. Rwy'n meddwl mai'r peth pwysig mwy na thebyg oedd ei fod yn mynd i gyrraedd yno. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 25-44, DE, Caerdydd)*

*Roedd cymuned yma ac yna rwy'n dechrau rhagor o waith gwirfoddoli i integreiddio, i gael profiad. . . . Mae'n gamp i chi eich hun hefyd. (Cyfieithiad o*

[10] Gweler [e-Petition: Make the 'Cofiwch Dryweryn' Mural a designated Welsh landmark]

*sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad, Abertawe)*

**Safbwynt rhanddeiliaid**

*Sut y mae hybu dinasyddiaeth ac ymgysylltu dinesig yn cyd-fynd â gwaith rhanddeiliaid*

5.13 I rai rhanddeiliaid, roedd gan ddinasyddiaeth ac ymgysylltu dinesig rôl bwysig yn eu gwaith wrth gefnogi grwpiau penodol o bobl. Mewn un enghraifft, roedd yn hollbwysig i rôl y sefydliad a oedd wedi'i chanoli ar hysbysu pobl ynghylch eu hawliau a sut y gallant ddefnyddio cyfreithiau i ymgyrchu dros newid. Mewn enghraifft arall, roedd ymgysylltu â materion cymunedol a llywodraeth leol yn chwarae rhan yn y gwaith o helpu pobl ifanc gyda'u datblygiad personol: 'Dyna'n llythrennol beth ydym yn ei wneud'. Roedd nifer o bobl ifanc wedi mynd ymlaen i ymuno â'r drefn llywodraethu lleol o ganlyniad.

5.14 Mewn rhai achosion, nid oedd rôl dinasyddiaeth ac ymgysylltu mor rymus. Roedd rhai'n dal i'w chael yn anodd ymgysylltu â grwpiau cleientiaid ynghylch pynciau o'r fath oherwydd meysydd eraill mwy dybryd a oedd yn cael blaenoriaeth. I un rhanddeiliaid roedd yn rhan o waith sefydliad i raddau er nad oedd etholiadau, hawliau democrataidd a phleidleisio'n cael sylw fel arfer. Roedd y sefydliad yn cadw ei ffocws ar hawliau plant a oedd wedi golygu rhywfaint o ymwneud ag ymgynghoriad ynghylch gostwng yr oedran pleidleisio yng Nghymru ar gyfer etholiadau cynghorau a'r Cynulliad. Mewn enghraifft bellach, roedd y cyllid a gafwyd ar gyfer prosiect gyda Phobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a chymunedau mudol yn dibynnu ar gyfran sylweddol o bobl yn gwneud gwaith gwirfoddol. Fodd bynnag, nid oedd ymgysylltu democrataidd yn cael sylw am nad oedd ganddynt amser ac am nad oedd yn berthnasol i'w cyllid. Roedd y cyfranogwr hwn yn teimlo'i bod yn drueni nad oedd ganddynt yr amser na'r adnoddau i roi sylw mwy trylwyr i'r testunau hyn lle'r oedd yn briodol.

5.15 Lle'r oedd dinasyddiaeth ac ymgysylltu dinesig yn gorgyffwrdd â'r ffyrdd yr oedd un rhanddeiliad yn cefnogi Sipsiwn a Theithwyr, byddent yn gweithio gyda'r grwpiau i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed, gan naill ai ganlyn materion ar eu rhan neu eu cynorthwyo gyda'u hymdrechion hwy eu hunain i wneud hynny. Fodd bynnag, nid oedd hybu dinasyddiaeth ac ymgysylltu dinesig yn rhywbeth yr oeddent yn mynd ar ei drywydd yn frwd fel rhan o'r drefn arferol. Serch hynny, roedd wedi cael ei

gadarnhau bod nifer y pleidleiswyr ymhlith y grwpiau hyn wedi bod yn eithriadol o isel mewn etholiadau lleol ac roedd felly'n dechrau dod yn rhan o agenda'r rhanddeiliad.

*Heriau sy'n wynebu rhanddeiliaid wrth hybu ymgysylltu democrataidd a dinesig*

5.16 Darparodd rhanddeiliaid enghreifftiau o ddulliau yr oeddent yn eu defnyddio i ymgysylltu â'r grwpiau yr oeddent yn gweithio gyda hwy a rhoddir sylw i'r rhain yn yr adran nesaf o'r adroddiad. Fe wnaethant hefyd amlygu heriau yr oeddent yn dod ar eu traws a oedd yn adlewyrchu llawer o'r materion a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

5.17 Nodwyd lefelau isel o ymwybyddiaeth o wleidyddiaeth yng Nghymru ynghyd ag ymgysylltu dinesig ehangach cyfyngedig iawn. Roedd enghreifftiau o grwpiau lle'r oedd hyn yn digwydd yn cynnwys pobl ifanc, pobl economaidd anweithgar, pobl anabl, Sipsiwn a Theithwyr a gwladolion tramor. Roedd ymdrin ag anfaterwch a oedd wedi gwreiddio'n ddwfn a chred nad oedd pleidleisio'n gwneud unrhyw wahaniaeth yn heriau allweddol hefyd: cyfeiriodd rhai at y ffaith nad oedd y bobl yr oeddent yn gweithio gyda hwy'n ystyried eu bod yn cael eu cynrychioli mewn gwleidyddiaeth nac yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi[11]. Rhoddwyd enghraifft, sef effaith diwygio lles ar bobl anabl a oedd yn teimlo o ganlyniad nad oedd eu barn yn cyfrif. Felly roedd ceisio perswadio pobl y gallent sefyll fel cynghorydd lleol yn anos byth. Efallai nad oedd pleidlais gyntaf fel person ifanc ar Brexit neu yn erbyn ffioedd dysgu wedi arwain at y canlyniad yr oeddent yn gobeithio amdano, gyda hynny'n cyfrannu at ymdeimlad o ddadrithiad.

> *Pan fo pobl wedi ymddieithrio [mae hynny'n her], felly nid yw pobl yn gweld ei fod yn rhywbeth iddynt hwy. Nid ydynt yn eu gweld eu hunain . . . yn enwedig lle mae etholiadau a sefyll mewn etholiad yn y cwestiwn, yn dod yn gynghorydd, pethau felly. Rwy'n meddwl bod llawer o le i wella o hyd. Nid yw amrywiaeth mewn democratiaeth yn wych. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

5.18 Roedd enghreifftiau achlysurol o bobl ifanc yn peidio â chael eu cymryd o ddifrif pan oeddent yn lleisio'u barn trwy sianeli swyddogol a oedd yn gysylltiedig â'r Llywodraeth neu drwy siarad gyda gwleidyddion. Hefyd, lle'r oeddent wedi gwneud

[11] Gweler McConnel, J. a Stevenson, S. (2019). Gwerthusiad o amrywiaeth mewn democratiaeth. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 27/2019.

ymdrech i chwarae rhan, weithiau nid oedd unrhyw adborth na newid o ganlyniad i'r gweithgarwch ymgysylltu.

> *Mae'r broblem yn codi pan fo pobl ifanc yn teimlo mai symbolau ydynt, mai symboleiddiaeth ydyw, rhyw fath o arwydd i fod yn eistedd mewn grŵp. Rydym wedi bod yn rhan o waith gan wahanol gyrff mewn llywodraeth leol a chan y llywodraeth mewn grwpiau a oedd yn chwilio am farn pobl ifanc, ac mae pobl ifanc wedi dod yn ôl a dweud eu bod yn teimlo mai dim ond oherwydd eu hoedran yr oeddent yno, ac nad oeddent yn cael eu gwerthfawrogi, ac na chafodd eu barn ei chymryd i ystyriaeth. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

5.19 Roedd heriau pellach a grybwyllwyd yn cynnwys:

- Diffyg adnoddau i fynd ati'n effeithiol i roi anogaeth ar gyfer ymgysylltu democrataidd a dinesig (e.e. i drefnu digwyddiad ymgysylltu);
- Annog Sipsiwn a Theithwyr i gofrestru i bleidleisio, yn enwedig y rhai a oedd yn dal i deithio neu'n byw wrth ochr y ffordd;
- Bod rhaid i sefydliadau rhanddeiliaid weithredu fel 'cyfryngwyr' trwy helpu'r bobl yr oeddent yn gweithio gyda hwy i ddeall yr hanfodion o ran sut yr oedd y system wleidyddol yn gweithio a thrwy gyfleu barn y bobl yr oeddent yn gweithio gyda hwy i gyrff y Llywodraeth – yn hytrach na pherthynas fwy uniongyrchol gyda chyfathrebiadau hawdd i'w deall;
- Anhawster ychwanegol ymgysylltu â phobl ifanc ynghylch y pynciau hyn pan nad oedd eu rhieni'n ymgysylltu; a lle'r oedd pobl ifanc wedi profi rhyngweithiadau negyddol gydag awdurdodau (e.e. ynghylch tai neu wasanaethau cymdeithasol);
- Y gost a oedd yn gysylltiedig â phobl anabl a phobl ifanc yn cael mynediad at gyfleoedd i chwarae rhan.

> *Roeddem yn darparu gweithdai unigol. Mewn byd delfrydol byddech yn meithrin perthnasoedd â grwpiau o bobl ifanc yn gyntaf ac yna'n agor y sgwrs honno i drafod dinasyddiaeth neu bleidleisio. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

5.20 Roedd cyrraedd rhai grwpiau ac ymgysylltu â hwy'n her weithiau i randdeiliaid. Lle'r oeddent yn gweithio gyda phobl ifanc, roedd rhai'n ei chael yn anodd cyrraedd y rhai a oedd: yn anabl; yn economaidd anweithgar; o gymunedau sy'n ceisio lloches;

mewn gofal preswyl preifat; yn droseddwyr; yn drawsryweddol; ac wedi'u lleoli mewn ardal wledig (yn enwedig dynion iau). Gan enghreifftio'r mater hwn, pwysleisiodd rhanddeiliad a oedd yn cyflawni rôl mewn awdurdod lleol nad oedd mai'r farn oedd nad oedd pobl ifanc economaidd anweithgar yn cael sylw gan unrhyw waith ymgysylltu ieuenctid ar 'raglenni dinasyddiaeth' ffurfiol a'i bod yn ymddangos nad oedd y rhaglenni ond yn cyrraedd y rhai a oedd eisoes yn ymgysylltu.

> *O ran llawer o'r plant yn y cymunedau mwy amddifadus yr ydym yn eu targedu, nid ydynt yn cael hynny . . . Mae llawer o'r gwasanaethau ieuenctid statudol sy'n gwneud llawer o'r gwaith dinasyddiaeth a dinasyddiaeth weithredol a llawer o'r pethau hynny, yn dal i beidio â'u targedu mewn gwirionedd. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

> *Y rhai sydd heb adael eu cymunedau lleol. Dydyn nhw ddim yn gweld sut y gall rhywun yng Ngogledd Cymru efallai greu newid ar y lefel genedlaethol. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

5.21 O ran gwladolion tramor, fe wnaed y pwynt bod rhai grwpiau wedi arfer mwy â phobl yn dweud wrthynt beth i'w wneud, a hwythau wedi cyrraedd yn y DU, yn hytrach na theimlo bod eu barn yn bwysig. O ganlyniad, roedd eu hannog i ymgysylltu â'r gymuned leol, er enghraifft fel ceiswyr lloches neu ffoaduriaid, yn anodd iawn weithiau ac yn galw am gryn dipyn o gymorth am nad oeddent wedi teimlo bod ganddynt reolaeth ar eu bywydau hyd yma. Hefyd, gallai fod yn her ymgysylltu â hwy ynghylch gwleidyddiaeth yn y DU a Chymru o gofio eu profiad negyddol gyda'r gyfundrefn yn eu gwlad enedigol. Gan amlygu'r her, roedd un rhanddeiliad yn cofio sut yr oedd rhai gwladolion tramor wedi ei chael yn anodd deall bod ganddynt yr un faint o hawl ag eraill i ymweld ag amgueddfa a bod mynediad am ddim.

5.22 Roedd sylw arall ymhlith rhanddeiliaid ynghylch grwpiau a oedd yn anos i'w cyrraedd neu i ymgysylltu â hwy yn ymwneud â phobl anabl. Roedd weithiau'n anos cyrraedd y gymuned fyddar lle nad oedd unigolion yn ystyried eu bod yn anabl. Mewn enghraifft derfynol, roedd un rhanddeiliad yn meddwl mai pobl economaidd anweithgar, yn enwedig menywod â chyfrifoldebau gofalu, oedd yr 'anoddaf i ddod o hyd iddynt'.

# 6. Awgrymiadau cyfranogwyr ar gyfer rhoi anogaeth i ymgysylltu

6.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi awgrymiadau cyfranogwyr ynghylch sut orau i ymgysylltu â hwy i'w hysgogi i bleidleisio a'u hannog i ymwneud â materion mewn cymunedau lleol[12]. Mae hefyd yn darparu enghreifftiau o'r math o negeseuon yr oedd cyfranogwyr yn meddwl y gallent eu hysgogi (neu fel rhanddeiliaid y bobl yr oeddent yn gweithio gyda hwy) yn y cyswllt hwn. Roedd syniadau ar gyfer ysgogi pobl i bleidleisio a rhoi anogaeth ar gyfer ymgysylltu dinesig yr un fath fwy neu lai.

- Y themâu allweddol oedd: gwybod mwy am y pwnc a sut i godi mater; teimlo bod pobl yn gwrando arnynt, teimlo'u bod yn cael eu cymryd o ddifrif a theimlo y gallai pleidleisio neu chwarae rhan yn y gymuned wneud gwahaniaeth;
- Roedd negeseuon a allai ysgogi wedi'u canoli ar newid, gweithredu, tystiolaeth, gonestrwydd ac weithiau'r dyfodol;
- Llwybrau ymgysylltu allweddol a awgrymwyd oedd trwy'r ysgol, cyrraedd pobl wyneb yn wyneb yn y gymuned a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol;
- Gallai unigolion uchel eu proffil helpu i ennyn diddordeb bechgyn 14-15 oed;
- Roedd rhanddeiliaid yn gweld bod rôl werthfawr i'r rhai a oedd eisoes yn gweithio gyda phobl i helpu gydag addysg ac ymgysylltu.

**Annog pobl i bleidleisio ac ymgysylltu dinesig ehangach – awgrymiadau cyfranogwyr**

6.2 Roedd yr awgrymiadau a gynigiwyd ynghylch yr hyn a allai annog cyfranogwyr i bleidleisio yn etholiadau cynghorau a'r Cynulliad ac i chwarae rhan mewn materion cymunedol yn aml yn gorgyffwrdd â'i gilydd. Caiff y prif themâu eu hamlygu yn y diagram dros y dudalen a chaiff y canfyddiadau allweddol o dan bob thema eu trafod, yn eu tro, dros y dudalen. Fodd bynnag, roedd rhai cyfranogwyr hŷn na allent weld beth fyddai'n eu hannog i ymgysylltu a phleidleisio.

**Ffigur 6.1: Prif awgrymiadau'r cyfranogwyr ynghylch annog pobl i bleidleisio ac ymgysylltu dinesig ehangach**

| | Gwybod mwy amdano | Yn cael gwrandawiad a chael eu cymryd o ddifrif | Bydd cyfranogi'n gwneud gwahaniaeth | Gwleidyddion/ ymgeiswyr gweladwy, hygyrch | Negeseuon ynglŷn â newid, gweithredu, tystiolaeth, y dyfodol, gonestrwydd, yr amgylchedd | Negeseuon perthnasol, cynhwysol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Eu hannog i bleidleisio | X | X | X | X | X | X |
| Ysgogi ymgysylltu dinesig | X | X | X | X | X | X |

[12] Gweler Hunt, M. a Nickson, S. (2019). *Adnewyddu democrataidd: tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 13/2019.

### *Gwybod mwy amdano*

6.3 Roedd gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am y modd y mae gwleidyddiaeth yng Nghymru'n gweithio a'i chysylltiad â bywydau pob dydd pobl yn awgrymiadau cyffredin ymhlith cyfranogwyr. Roedd rhai pobl ifanc a gwladolion tramor yn dangos mwy o chwilfrydedd ynghylch gwleidyddiaeth yng Nghymru. Roedd rhai'n dymuno bod â'r hyder i bleidleisio y byddai gwybodaeth yn ei ddwyn. Nid oedd rhai cyfranogwyr yn siŵr o anghenraid beth oedd angen iddynt ei wybod oherwydd eu diffyg dealltwriaeth am y pwnc.

> *B: Maen nhw'n defnyddio geiriau, mae pobl hyd yn oed hynach na fi ddim yn gwybod beth maen nhw'n ddweud. . . . G: Dim clem sut mae fe'n gweithio. (18-24, C2DE, Rhydaman)*

6.4 O safbwynt pleidleisio, roedd ar rai eisiau gwybod:

- Beth mae cynghorau lleol, Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei wneud, y pwerau sydd ganddynt, beth yw'r berthynas rhyngddynt a beth yw'r berthynas rhwng system wleidyddol Cymru a system y DU;
- Pam fod gwleidyddiaeth yng Nghymru mor bwysig;
- Pwy yw'r pleidiau gwleidyddol a beth yw daliadau pob plaid;
- Beth yw'r rheswm dros etholiad;
- Pwy yw'r gwleidyddion / ymgeiswyr, beth fyddant yn ei wneud a beth maent yn credu ynddo;
- Sut i benderfynu dros bwy i bleidleisio mewn etholiad;
- Sut y gall pleidleisio wneud gwahaniaeth a beth yw canlyniad pleidleisio;
- Eglurder ynghylch cymhwystra i bleidleisio (gwladolion tramor);
- Sut i bleidleisio gan gynnwys cofrestru (yn fwy felly ymhlith cyfranogwyr iau a rhai gwladolion tramor).

> *Nid yw'n bwysig i mi ond . . . nid oes unrhyw beth i helpu pobl ifanc i ddeall na dysgu am wleidyddiaeth. Nid oed grwpiau fel petai i helpu pobl i ddeall a'u denu i fod ag eisiau gwybod am wleidyddiaeth. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 18-24, ABC1, Torfaen)*

*Ddim yn rhy glir. . . . Ond mae hynny trwy fy newis i fy hun mwy na thebyg gan fy mod yn brysur gyda'r plant a gwaith ac fe allwn ymwneud yn fwy o ran meddwl mwy am wleidyddiaeth, mwy na thebyg. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o un o wledydd y Gymanwlad, Y Trallwng)*

*Mae'n wych bod gan Gymru ei senedd ei hun. Fodd bynnag, nid wyf yn teimlo ei bod yn ddigon grymus i wneud polisïau nac unrhyw ddatblygiadau yng Nghymru, o'i gymharu â Lloegr. Rwy'n dal wedi drysu ynghylch 'SUT' y mae cyfathrebu rhwng y Llywodraeth ganolog a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn digwydd. (Cyfieithiad o sylw ysgrifenedig a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o un o wledydd y Gymanwlad, Abertawe)*

6.5 Ar gyfer ymgysylltu dinesig ehangach, roedd ar rai cyfranogwyr eisiau gwybod yn gyntaf sut y gallent godi mater a chwarae rhan.

*B: Dydw i ddim yn teimlo fel pe bai gennym ddigon o lefydd i fynd, oherwydd at bwy y byddem yn troi? . . . B: Mae fel pe bai angen i chi fod mewn sefyllfa ddrastig iawn, neu fel arall dydych chi ddim yn cael yr opsiwn mewn gwirionedd. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (16-17, mewn addysg, Wrecsam)*

### Cael gwrandawiad a chael eu cymryd o ddifrif

6.6 Yr ail awgrym mwyaf cyffredin ar gyfer annog cyfranogwyr i bleidleisio ac ymgysylltu oedd bod pobl yn teimlo'u bod yn cael gwrandawiad go iawn ac yn cael eu cymryd o ddifrif. I rai pobl ifanc roedd hyn yn golygu cael eu sicrhau bod ganddynt hawl i fynegi eu barn neu godi mater ac y byddai eu mewnbwn yn cael ei groesawu.

*Anodd [i bobl ifanc fynegi barn] bydda i'n gweud achos os bod pobl yn teimlo'n gryf am rhywbeth, fel gwedwch nawr y protestiadau oedd yn digwydd tu allan i'r adeiladau Llywodraeth am newid hinsawdd, fel mae pobl yn gweld hynna, maen nhw jyst yn kind of chwerthin arno fe a dim yn cymryd e o ddifri o gwbl. Maen nhw jyst fel wel, dim ond plant 'dyn nhw yn chwarae rownd. (Gwryw, 16-17, mewn addysg, Aberystwyth)*

### Bydd cyfranogiad yn gwneud gwahaniaeth

6.7 Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y byddent yn cael eu hargyhoeddi eu bod yn cael gwrandawiad pe baent yn gweld bod gweithredu'n digwydd mewn perthynas â'r

mater yr oeddent hwy wedi'i godi – gan wneud gwahaniaeth[13]. Awgrymwyd dull 'fe ofynnoch chi, fe wnaethom ni'. Roedd un grŵp o bobl ifanc yn teimlo bod angen i chwarae rhan fod yn norm yn hytrach na bod yn bosibl dim ond i'r rhai a oedd yn gymwys i gael rhyw fath o gymorth ieuenctid neu wasanaethau cymdeithasol yn ôl pob golwg; neu'n rhywbeth mai dim ond 'boffins' yn yr ysgol fyddai'n ymwneud ag ef.

*Pe bai pobl yn mynd mor bell â gwrando arnom am unwaith, yna rwy'n meddwl y bydd llawer mwy o bobl yn rhoi'r gorau i feddwl, 'o does dim ots gen i', oherwydd mai fel 'o, rydyn ni yn newid pethau go iawn'. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 16-17, mewn addysg, Wrecsam)*

6.8 Roedd gan gyfranogwyr ddiddordeb yn y syniad o fod yn rhan o'r broses a oedd wedi'i bwriadu i greu datrysiad i fater a godwyd neu o leiaf gael eu hysbysu o'r canlyniad. Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid amlygu'r dull hwn hefyd fel un a oedd yn effeithiol ar gyfer ymgysylltu pe ymdrinnid ag ef yn briodol. Yn ôl un rhanddeiliad, roedd annog a chynorthwyo pobl i sefyll fel cynghorwyr yn bwysig hefyd.

*Pe bai'n llwybr [beiciau mynydd], dyweder, byddwn yn helpu i'w adeiladu. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 14-15, Torfaen)*

*Pan fo'n amser etholiadau cenedlaethol neu etholiadau lleol rydych chi wastad yn annog pobl i bleidleisio ac i sefyll eu hunain. Felly mae'n ymwneud â datblygu hunanhyder a chred pobl fel person anabl i weithio ochr yn ochr â phobl nad ydynt yn anabl ar sail gydradd. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

### *Gwleidyddion / ymgeiswyr gweladwy, hygyrch*

6.9 Awgrymodd cyfranogwyr yn aml y byddai gwleidyddion lleol, ymgeiswyr neu benderfynwyr lleol mwy gweladwy a hygyrch – a chael y cyfle i gwrdd â hwy wyneb yn wyneb – yn eu hannog i ymgysylltu'n fwy ac ystyried pleidleisio. Byddai hefyd yn ychwanegu cyffyrddiad dynol ac yn gwneud y profiad yn fwy 'personol'. Wrth wneud yr awgrym hwn roedd cyfranogwyr weithiau'n ychwanegu'r amod mai nid dim ond adeg etholiad y dylai gwleidyddion gael eu gweld. Byddai'n fwy tebygol o argyhoeddi cyfranogwyr bod gan y cynghorydd neu'r ymgeisydd ddiddordeb go iawn ym marn a phryderon pobl ac fe allai eu hannog i bleidleisio. Yn ddelfrydol,

[13] Gweler Hunt, M. a Nickson, S. (2019). *Adnewyddu democrataidd: tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 13/2019.

byddent yn gallu dod i adnabod y gwleidydd neu'r penderfynwr. Roedd oedolion yn fwy tebygol na phobl ifanc 14-17 oed o wneud yr awgrym hwn.

> *G: Dyna'r unig adag ti'n gweld [cynghorydd lleol], pan mae o isio vote. B: Ac maen nhw'n rhoi'r pishyn o bapur 'ma, a dwi'n meddwl iawn, oce, ond dwi heb 'di gweld chdi cyn heddiw. (25-44, DE, Caernarfon)*

### *Negeseuon ynglŷn â newid, gweithredu, tystiolaeth, y dyfodol, gonestrwydd, yr amgylchedd*

6.10 Nodwyd rhai themâu mewn negeseuon yr oedd cyfranogwyr yn teimlo y gallent ddal eu sylw a'u hannog i ymgysylltu'n fwy. Roedd themâu **newid** a **gweithredu** yn flaenllaw o ran: gweld tystiolaeth o newid; sut y gallai pleidlais unigolyn newid rhywbeth a oedd yn bwysig i bobl; a gallu helpu gyda newid trwy leisio barn ynglŷn â'r materion lleol. Roedd rhai rhanddeiliaid wedi cael bod newid yn fan cychwyn da i bobl feddwl am unrhyw faterion yn eu cymuned, gan ei wneud mor weladwy â phosibl. O'r fan honno, gallent archwilio'r hyn y gellid ei wneud i godi mater a sut yr oedd y systemau gwleidyddol yng Nghymru'n gweithio. Roedd cyfranogwyr o'r farn bod newid ar lefel leol yn elfen bwysig i'w phwysleisio gan y gellid cyfleu mai dyma lle gallai unigolyn gael yr effaith fwyaf; ac ar faterion a oedd o bwys iddynt yn lleol neu'n rhanbarthol. Byddai hyn yn cynnwys amlygu mewn negeseuon lle'r oedd gan y Cynulliad y grym i wneud gwahaniaeth, neu dynnu sylw at fentrau, rhaglenni neu waith lleol a sut yr oeddent yn cael eu hariannu.

> *Yn fy marn i, os ydych yn ei gysylltu â newid ac yn ei gysylltu ag enghreifftiau o newid mewn bywyd go iawn yna mae hynny'n gwneud gwahaniaeth mawr. (Rhanddeiliad)*

> *Dymuno gweld newidiadau [yw un o'r pethau fyddai'n fy ysgogi i] ond fel arfer rhaid i chi fod yn anniddig iawn. Fel yn Ne Affrica, roeddwn yn pleidleisio am fy mod yn teimlo'n anniddig ac angerddol iawn, ond draw fan hyn, mae pethau fel pe baent yn rhedeg yn llyfn felly does gennych chi ddim yr awch hwnnw am newid. . . . Wel mae angen newid iechyd meddwl; mae llawer o ddefnyddio cyffuriau, mae tlodi mawr. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o un o wledydd y Gymanwlad)*

> *[Tystiolaeth o] rywbeth da'n digwydd, ond dydych chi ddim yn clywed am rywbeth da'n digwydd yn y Drenewydd. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 45+, DE, Y Drenewydd)*

6.11 Cafodd negeseuon perthnasol am y **dyfodol** eu hawgrymu weithiau ymhlith pobl ifanc 14-17 oed, y rhai â phlant bach a gwladolion tramor. Gallai'r negeseuon hyn ymwneud â'u dyfodol hwy eu hunain neu ddyfodol eu plant.

> *Deud na dyfodol ni 'di o a dylia ni gael deud be 'dan ni isio neud yn lle bod ni'n tyfu fyny a mond y bobl cynt oedd yn gwybod be oedd yn mynd ymlaen. Dyna fydd yn digwydd, os 'dan ni'm yn gwybod be 'dan ni'n neud. (Benyw, 14-15, Caernarfon)*

> *Fel rhywbeth maen nhw'n mynd i'w newid ar gyfer ein dyfodol ni yn hytrach na'r genhedlaeth o bobl yn y dyfodol sy'n llawer hŷn na ni. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 18-24, ABC1, Torfaen)*

6.12 Roedd rhai'n teimlo bod negeseuon ynghylch **gonestrwydd a thryloywder** yn bwysig; ond byddai angen iddynt gael eu tanategu gan resymau dros gredu'r negeseuon hynny.

6.13 Roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu ynghylch yr **amgylchedd** ac argyfwng yr hinsawdd. Felly awgrymwyd negeseuon a oedd yn mynd i'r afael â'r pryder hwn. Negeseuon posibl eraill a gynigiwyd oedd: bod dyletswydd ar drigolion i bleidleisio neu chwarae rhan, er enghraifft canolbwyntio'r cynnwys ar yr unigolyn; sut y gall un bleidlais wneud gwahaniaeth; ac addysg, iechyd a thai.

### *Negeseuon cynhwysol, perthnasol*

6.14 Ymhlith gwladolion tramor a rhai pobl ifanc 14-17 oed, roedd awydd am negeseuon ynglŷn â chynwysoldeb ac amrywiaeth a oedd yn gwneud iddynt deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Cyfeiriodd rhai gwladolion tramor at gynnwys wedi'i deilwra a oedd yn eu sicrhau eu bod wir yn rhan o'r gymuned a bod eu barn yn cyfrif. Roedd arnynt eisiau cael eu sicrhau nad oeddent yn cael eu hystyried yn 'sbwnjwrs', bod eu pleidlais yn bwysig a bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Yn yr un modd i bobl ifanc, roedd yn bwysig iddynt wybod bod ganddynt hawl i roi eu barn, y byddent yn cael gwrandawiad ac y byddai eu barn yn cael ei hystyried.

### Syniadau eraill ar gyfer ymgysylltu cymunedol

6.15 Roedd syniadau eraill ar gyfer ymgysylltu cymunedol lleol gan y cyhoedd yn cynnwys helpu'r arfer o chwarae rhan i fod yn 'ffasiynol' ac yn norm; ac ymatebion personol, wedi'u teilwra i unrhyw faterion a godir, er enghraifft trwy sianelau ar-lein, a fyddai'n helpu i gau'r ddolen adborth. Awgrymiadau pellach gan randdeiliaid oedd:

- Sicrhau bod hygyrchedd unrhyw fath o ddigwyddiad neu fenter yn cael ei gynllunio. Roedd hyn yn cynnwys agweddau megis mynediad ffisegol, dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain[14], systemau dolenni clywed ac ati a pharcio;
- I bobl ifanc, canolbwyntio ar ddefnyddio iaith sy'n seiliedig ar hawliau a phwysleisio wrth bobl ifanc bod gan bawb hawliau ni waeth beth yw eu hoedran na'u cefndir;
- Darparu treuliau neu gyllid ar gyfer pobl lle y bo angen i sicrhau eu bod yn gallu chwarae rhan mewn ymgysylltu dinesig (e.e. treuliau teithio);
- Gwirfoddoli a allai weithredu fel man cychwyn gwerthfawr ar gyfer ymgysylltu dinesig i ystod o wahanol grwpiau o bobl. Rhoddwyd enghraifft, sef gofyn i bobl economaidd anweithgar wirfoddoli fel rhan o raglen gymorth ac fel cam cyntaf i'w helpu i deimlo'u bod yn cael eu cynnwys yn fwy mewn cymdeithas. Roedd yn dal yn rhaid iddynt deimlo'u bod yn cael rhywbeth ohono hefyd, fel ymdeimlad o gyflawniad. Fe wnaed y pwynt hefyd bod chwarae rhan yn y gymuned yn gam cyntaf defnyddiol tuag at ymgysylltu trwy bleidleisio;
- Defnyddio astudiaethau achos – roedd cyfranogwr a oedd yn gweithio gyda phobl anabl yn eu defnyddio i helpu i roi'r hyder a'r offer ymarferol i bobl weithredu, fel herio penderfyniad lleol ynglŷn â phecyn gofal.

**Nodweddion a ddymunir mewn cynghorwyr neu ymgeiswyr**

6.16 Wrth drafod yr hyn y byddent yn chwilio amdano mewn cynghorydd neu ymgeisydd, enwodd cyfranogwyr rai nodweddion a oedd yn gorgyffwrdd â'r themâu a ddisgrifiwyd uchod: hygyrch, hawdd mynd atynt (cyfeillgar, ddim yn fygythiol, di-lol), gweladwy (yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio barn pobl yn y gymuned), yn ymddiddori go iawn mewn pobl, yn gwrando, gonest, dibynadwy, yn glir o ran yr hyn y maent yn sefyll o'i blaid, yn gweithredu a / neu'n cau'r ddolen adborth. Roedd ar rai eisiau i'w cynghorydd neu ymgeisydd adnabod yr ardal leol yn dda a bod wedi profi rhai o'r materion sy'n wynebu'r gymuned. Efallai y byddai gan y cynrychiolydd delfrydol hanes yn barod o wneud gwahaniaeth mewn rhyw ffordd yn y gymuned leol neu leiaf o chwarae rhan mewn rhyw ffordd. Byddent eisoes yn cael eu parchu am gyflawniadau o fewn y gymuned.

---

[14] Gweler British sign

*Nid oes rhyw lawer o gynghorwyr sy'n mynd o gwmpas ac yn mynd mor bell ag ymwneud â llawer o bethau. Rwy'n meddwl bod un, . . . Rwy'n meddwl mai cynghorydd ydyw, mae'n mynd o gwmpas ac yn glanhau ymylon y ffyrdd. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 18-24, C2DE, Wrecsam)*

*Byddwn i'n pleidleisio dros bobl nad ydynt yn cyflawni unrhyw droseddau ac sydd yno i wneud gwahaniaeth mewn gwirionedd; dydyn nhw ddim i gyd o Rydychen, wyddoch chi. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 25-44, DE, Caerdydd)*

*Chlywais i erioed unrhyw beth yn ôl [ynglŷn â thipio anghyfreithlon]. Hynny yw, un o'r pethau y byddwn i'n eu gwella yw o leiaf dweud: 'diolch am roi gwybod i ni. Rydyn ni'n bwriadu gwneud rhywbeth' neu 'rydyn ni eisoes wedi gwneud rhywbeth amdano'. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 45+, DE, Y Drenewydd)*

6.17 Roedd cyfeiriadau hefyd ymhlith cyfranogwyr iau at ddymuno cael eu cynrychioli gan unigolyn a oedd yn iau ac yn haws uniaethu â hwy, ac yr oedd â'r un materion â hwy yn agos at eu calonnau, fel yr amgylchedd. Mewn rhai achosion, roedd ar wladolion tramor eisiau gweld pobl o gefndir amrywiol yn eu cynrychioli a theimlo bod y cynghorydd neu'r ymgeisydd yn 'cofleidio'r gymuned gyfan'[15].

*Rwy'n meddwl y dylai fod ganddynt bobl iau yno sy'n mynd i allu uniaethu â'r hyn yr ydym yn ei weld ac yn ei wneud. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 16-17, ddim mewn addysg, Abertawe)*


*B: Os oes un o Tsieina, Tsieineaidd. Byddai, gallai deimlo'n agosach gan y gallent ddeall mwy pan ydych yn siarad am rywbeth. B: Rhywun sy'n ein deall ni, sy'n deall ein cymuned. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o wlad y tu allan i'r UE/y tu allan i'r Gymanwlad)*

**Dulliau a awgrymwyd ar gyfer darparu gwybodaeth ac ymgysylltu â phobl**

6.18 Roedd tri phrif awgrym ar gyfer sianeli i ddarparu gwybodaeth ar gyfer pobl ac i'w defnyddio ar gyfer ymgysylltu. Cafodd yr awgrymiadau hyn (a gaiff eu crynhoi isod) eu gwneud gan y cyhoedd a rhanddeiliaid.

[15] Gweler Blair, J. a Mathias, M. (2018). *Lleisiau newydd: Sut y gall gwleidyddiaeth Cymru ddechrau adlewyrchu Cymru*. Diwygio Etholiadol Cymru

**Ffigur 6.2: Prif awgrymiadau'r cyfranogwyr ar gyfer sianeli darparu gwybodaeth ac ymgysylltu**




### *Ysgolion a cholegau*

6.19 Roedd barn gyffredinol ymhlith cyfranogwyr bod **ysgolion** yn sianel hollbwysig ar gyfer ymgysylltu democrataidd a dinesig[16]. Rhybuddiodd cyfranogwyr iau y byddai angen i'r ffordd yr oedd yn cael ei gyflwyno a'i addysgu fod yn rhyngweithiol, yn bleserus ac wedi'i theilwra i'r materion a oedd yn uniongyrchol berthnasol i ddisgyblion yn eu tyb hwy. Fe ddwedon nhw fod gwahodd rhywun i mewn i drafod pleidleisio ac ymgysylltu dinesig yn fwy tebygol o ddal eu sylw. Gallai hyn fod yn ymweliad gan bobl sy'n cynrychioli'r cyngor, Llywodraeth Cymru neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Eglurodd un cyfranogwr fod disgyblion wedi pleidleisio dros Brif Fachgen a Phrif Ferch, a oedd yn ffordd dda o gyflwyno pobl ifanc i gysyniad pleidleisio yn eu tyb hwy. Awgrymwyd hefyd y gallai'r ysgol fod yn ffordd effeithiol o gyrraedd rhieni gyda gwybodaeth am y pwnc.

> *Mae angen i ni ddysgu mwy amdano yn yr ysgol. Felly, byddai, mi fyddai hynny'n syml yn ein gwneud yn fwy cysurus ynglŷn â'r hyn rydym yn pleidleisio drosto achos dydw i ddim yn gwybod hyd yn oed. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 14-15, Caerdydd)*

---

[16] Ar gyfer cyd-destun, gweler:
- *Senedd sy'n Gweithio i Gymru, Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad* (2017)
- Blair, J. a Mathias, M. (2018). *Lleisiau newydd: Sut y gall gwleidyddiaeth Cymru ddechrau adlewyrchu Cymru*. Diwygio Etholiadol Cymru
- Hunt, M. a Nickson, S. (2019). *Adnewyddu democrataidd: tystiolaeth gyfunol o blaid diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 13/2019.

*G: Efallai pe baent yn dod i mewn i'r ysgolion ac yn siarad amdano, ond yn ei wneud yn ddiddorol, felly'n trefnu gemau a phethau felly. . . . G: Os yw'n golygu eich bod yn colli gwersi! (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (14-15, Y Drenewydd)*

*Sicrhau bod gennyn nhw ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth yn oedran ifanc. Wedyn maen nhw'n tyfu fyny. . . . Jyst cael unrhyw fath o addysg am wleidyddiaeth neu economeg neu gyfraith, achos 'dyn ni'n cael dim, ond eto ni'n gorfod dysgu am tecstilau! (Gwryw, 16-17, mewn addysg, Aberystwyth)*

6.20 Roedd gwahaniaethau i'w cael ymhlith pobl ifanc yn ôl oedran hefyd, yn ôl un rhanddeiliad, lle'r oedd dulliau rhyngweithio yn y cwestiwn. Wrth ymgysylltu ynghylch hawliau plant, roedd plant o oedran uwchradd yn tueddu i ddymuno bod y dulliau'n rhai mwy o ddifrif (e.e. gyda dadleuon a thrafodaethau a arweinir gan gymheiriaid) na'r rhai a ddefnyddir ar gyfer plant iau a oedd yn fwy 'ymarferol'. Hefyd, 'caniatáu iddynt chwarae rôl, mae hynny weithiau'n gweithio'n dda. . . . rwy'n meddwl bod grymuso pobl ifanc yn eu helpu i ymgysylltu'n well' (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg).

### *Y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein*

6.21 Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn awgrym rheolaidd ar draws gwahanol fathau o gyfranogwyr ynghylch sut i'w cyrraedd ac ymgysylltu â hwy. Facebook oedd y platfform mwyaf blaenllaw a grybwyllwyd (e.e. hysbysebion, fideo, postiadau a rennir) ac roedd eisoes yn darparu modd cyfleus i lofnodi deisebau. Roedd nifer fach o gyfranogwyr o'r farn bod Digwyddiadau Facebook yn sianel effeithiol am bod pobl yn gallu dod i wybod yn rhwydd beth oedd yn digwydd yn y gymuned a gweld pwy arall oedd yn mynd i chwarae rhan.

*Ceisio ein cyrraedd ar y cyfryngau cymdeithasol yn hytrach na gwefannau am nad oes unrhyw un byth yn mynd ar y wefan mewn gwirionedd. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Gwryw, 18-24, ABC1, Torfaen)*

6.22 Er bod Facebook wedi cael ei grybwyll ymhlith pobl ifanc 14-17 oed, roeddent yn tueddu i ganolbwyntio ar Instagram (e.e. trwy hysbysebion neu storïau), Snapchat (e.e. storïau) ac YouTube (hysbysebion mewn fideos neu gynnwys fideo) fel platfformau y gellid eu defnyddio i'w cyrraedd yn eu tyb hwy. Roedd syniadau pellach a oedd yn ymwneud â'r cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys trwy Spotify ac, ar gyfer gwladolion tramor Tsieineaidd, WeChat, y dywedodd y cyfranogwyr eu bod

yn eu defnyddio'n helaeth. Roedd cyfranogwyr o'r farn bod y cyfryngau cymdeithasol yn darparu'r platfform delfrydol ar gyfer hyrwyddo fideos byr i helpu gydag addysg ac ymgysylltu. Yn ôl rhai bechgyn 14-15 oed, byddai eu diddordeb yn tyfu pe bai'r cynnwys yn canolbwyntio ar chwaraewr rygbi adnabyddus. Gellid ffrydio sesiynau holi ac ateb byw hefyd.

> *B: Byddwn i'n dweud Digwyddiadau Facebook, y rhan fwyaf o'r amser. Dyna sut y byddech yn dod i wybod am y rhan fwyaf o bethau. B: Ie, Digwyddiadau Facebook yn bendant gan ei bod yn rhwydd gweld pwy sydd â diddordeb mewn pethau ac yn mynd i bethau. . . . B: Neu bethau sy'n cael eu rhannu ar Instagram trwy eu hailrannu ar storïau a phethau. Mae Snapchat ychydig yn anodd gan bod rhaid i chi ychwanegu'r cyfrifon i gyd. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 16-17 mewn addysg, Wrecsam)*

> *G: Storïau Snapchat. . . . Felly, fel weithiau mae ganddynt gyfweliadau arnynt a phethau. G: Bydd rhywun yn postio arnynt. Ie, ac wedyn bydd pawb yn mynd ac yn eu gwylio. Rydych chi'n syml yn clicio arno. . . . Byddwn i'n clicio arno ac yn ei wylio [os mai Shane Williams ydoedd]. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (14-15, Torfaen)*

6.23 Roedd pobl rhwng un ar bymtheg a dwy ar bymtheg mewn un grŵp (yn dal mewn addysg) yn meddwl y byddai'n ennyn brwdfrydedd pe bai fideo'n egluro sut yr oedd y systemau gwleidyddol yn gweithio a phwy oedd y gwahanol bleidiau gwleidyddol. Roeddent hefyd yn dymuno gweld fideos gan bob un o'r pleidiau gwleidyddol yn egluro beth oeddent yn sefyll o'i blaid er mwyn iddynt gael cymysgedd o wybodaeth bleidiol ac amhleidiol. Roeddent yn pwysleisio bod angen i fideos fod yn syml ac yn glir fel bod pawb yn gallu deall.

6.24 Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y cyfryngau cymdeithasol yn sianel werthfawr i'w defnyddio gyda rhai grwpiau er enghraifft pobl ifanc, pobl anabl a Sipsiwn a Theithwyr, o ystyried y sgiliau llythrennedd cyfyngedig y doir ar eu traws gyda'r olaf o'r rhain o bryd i'w gilydd. Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn helpu i gynnal ymdeimlad o gymuned, anffurfioldeb ac roedd yn offeryn pwysig ar gyfer gwahodd pobl i ddigwyddiadau (Facebook yn bennaf). Roedd rhai'n cydnabod nad oeddent yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mor effeithiol ag y gallent trwy bresenoldeb cyfyngedig neu ddiffyg arbenigedd.

6.25 Yn llai cadarnhaol, roedd rhai cyfranogwyr iau nad oeddent mewn addysg yn amau a fyddent yn cymryd rhyw lawer o sylw o unrhyw gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol oherwydd y cynnwys, pwynt a adleisiwyd ymhlith rhanddeiliaid. Yn ôl un rhanddeiliad, prin yr oedd rhai pobl ifanc wedi'u hymyleiddio yr oeddent yn gweithio gyda hwy yn mynd ar-lein o gwbl oherwydd y gost a natur anhrefnus eu bywydau. Cafeatau pellach a godwyd oedd materion cynaliadwyedd i rai pobl anabl; a'r ffaith bod y cyfryngau cymdeithasol yn lle swnllyd, sy'n ei gwneud yn anodd i gynnwys sefyll allan. Roedd materion ymddiriedaeth a dilysrwydd i ymgiprys â hwy hefyd.

> *Maent [pobl ifanc] ym ymwybodol iawn o'r hyn sy'n gyfystyr â hysbyseb a'r hyn sy'n gyfystyr ag estyn allan go iawn a byddant yn osgoi hysbyseb. Rwy'n meddwl bod y syniad hwn mai'r cyfryngau cymdeithasol yw'r ateb yn anhygoel o or-syml a naïf. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

6.26 Roedd gwefan annibynnol i baru daliadau a gwerthoedd unigolyn â phleidiau gwleidyddol yn syniad ychwanegol yr oedd rhai cyfranogwyr am ei weld, i'w helpu i wneud penderfyniadau ynglŷn â phleidleisio. Gallai gwefan annibynnol, eglur ddarparu gwybodaeth ynglŷn â sut y mae'r broses yn gweithio, sut i bleidleisio, polisïau ac ymgeiswyr hefyd.

### *Mentrau yn y gymuned a defnyddio rhwydweithiau presennol*

6.27 Cyflwynwyd ystod o syniadau ynghylch sianeli cymunedol ar gyfer hysbysu pobl ac ymgysylltu â hwy. Un o'r themâu allweddol oedd mynd â gwleidyddiaeth i mewn i'r gymuned a darparu cyfleoedd rheolaidd i drigolion ryngweithio â chynghorwyr. Fe wnaeth rhai cyfranogwyr, yn enwedig gwladolion tramor, bwysleisio bod cyswllt wyneb yn wyneb yn fuddiol ar gyfer ymgysylltu. Byddai'n gwarantu trafodaeth (efallai dadleuon rhwng ymgeiswyr neu gwestiynau ac atebion), yn teimlo'n bwysicach ac yn helpu i gyfleu didwylledd ar ran y rhai sy'n trefnu'r gweithgaredd ymgysylltu. Roedd pobl ifanc rhwng pedair ar ddeg a dwy ar bymtheg yn llai tebygol o wneud yr awgrym hwn. Gallai wyneb yn wyneb fod yn ffordd o ddod i adnabod gwleidyddion lleol a deall yr hyn yr oeddent yn sefyll drosto hefyd. Roedd yr opsiwn i ymweld â swyddfeydd cynghorau lleol wedi cael ei ddefnyddio gan rai cyfranogwyr ac roeddent wedi'i gael yn brofiad cadarnhaol.

*Pe baech yn gallu mynd mor bell â chwrdd â'r bobl sy'n eich cynrychioli yna byddai hynny'n well; gallwch fynd mor bell â gofyn iddynt sut y byddent yn mynd ati i gynrychioli eich syniadau a phethau fel hynny. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 18-24, C2DE, Wrecsam)*

*G: Gyda chyfarfod. Byddwn i'n mynd pe baen nhw'n dweud, . . . . i egluro sut y mae'n gweithio, y Brexit ar ôl i ni adael. Byddwn i'n mynd. B: Oherwydd rwy'n meddwl ei bod yn well siarad yn bersonol na dim ond cael llythyr y byddech neu na fyddwch yn ei ddarllen o bosibl, y byddech neu na fyddech yn ei gadw o bosibl. . . . [Trafod] yr hyn y gallen ni ei wneud hefyd fel cymuned. (Cyfieithiad o sylwadau a wnaed yn Saesneg) (Gwladolion tramor o un o wledydd yr UE, Caernarfon)*

6.28 Fodd bynnag, roedd rhai'n credu y dylai gwleidyddion, ymgeiswyr a'r rhai sy'n gyfrifol am feysydd lle gallai fod problem fod yn cwrdd â phreswylwyr mewn lleoliadau presennol yn hytrach na disgwyl i bobl deithio i gyfarfodydd: mynd 'ble mae'r bobl'. Gallai'r rhain fod wrth gatiau'r ysgol, mewn grwpiau cymunedol (e.e. grŵp atgyweirio gan wirfoddolwyr), canolfannau ffydd, lleoliadau iechyd, ar drothwy'r drws, tafarndai, siopau, clybiau chwaraeon, trwy elusennau a chlybiau ieuenctid. Gellid cyrraedd pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol trwy hynafgwyr a oedd â rôl flaenllaw yn eu cymuned hefyd.

*Pe baent yn cymryd yr amser i fynd mor bell â chwrdd â phobl, mynd allan i'r tafarndai, mynd ble mae'r bobl. Peidio â threfnu cyfarfod bach, mynd ble mae'r bobl. Eich cyflwyno eich hunain. Bod ychydig yn fwy agored a chyfeillgar gyda phobl, yn hytrach na bod rhaid i ni fynd atyn nhw oherwydd wn i ddim ble maen nhw. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 45+, DE, Y Drenewydd)*

*Byddwn i'n mynnu bod y bobl a oedd yn gwneud y newidiadau, yn eistedd yn y Senedd, yn mynd mor bell â dod allan i siarad gyda'r unigolion a gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, yn hytrach na bod wal yn atal pobl rhag ymgysylltu. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

6.29 Nododd rhanddeiliaid fod sianeli wyneb yn wyneb lleol presennol yn ogystal â hwy eu hunain yn ffordd effeithiol o gyrraedd y bobl yr oeddent yn eu cefnogi ac ymgysylltu â hwy. Er eu bod yn cydnabod pwysigrwydd y cyfryngau cymdeithasol, cyfeiriodd rhai at y llwyddiant yr oeddent wedi'i gael gyda rhyngweithiadau wyneb

yn wyneb â phobl ifanc, er enghraifft trwy weithgareddau rhyngweithiol a phleserus (e.e. pobl yn symud o amgylch yr ystafell, defnyddio Kahoot![17], dulliau seiliedig ar ddrama, gwneud ffilmiau a gweithgareddau ymarferol fel bod y rhai a allai ei chael yn anodd darllen ac ysgrifennu'n cael eu cynnwys). Fe egluron nhw fod bwyd ac weithiau gweithgareddau (e.e. pledu paent) am ddim fel rhan o'r trefniant yn helpu gydag ymgysylltu. Roedd ar rai eisiau parhau i ddefnyddio swyddogion allgymorth o Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a San Steffan ac roedd arnynt eisiau gweld mwy o fuddsoddi yn yr adnodd hwn.

*Mae gyda ni'r clybiau hyn ac maent yn ysu i chwarae rhan. Pobl ifanc sy'n ymgysylltu yw'r rhain, a'r cwbl y mae arnynt ei eisiau yw'r cyfle i gael gwrandawiad ac i ddeall pethau. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

6.30 Fel rhan o'r dull hwn, awgrymwyd hyfforddi neu ariannu'r rhai a oedd eisoes â chysylltiadau â grwpiau anos i'w cyrraedd fel yr economaidd anweithgar, yn hytrach na cheisio ymgysylltu o'r dechrau un. Cafodd 'gweithwyr ieuenctid', 'gweithwyr cymorth', 'gweithwyr cymdeithasol' (yn enwedig i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg), elusennau a gweithredwyr cymunedol eu henwi weithiau fel rhai a oedd mewn sefyllfa dda i helpu. Roeddent hwy wedi datblygu perthnasoedd llawn ymddiriedaeth gyda'r grwpiau yr oeddent yn gweithio gyda hwy a byddent yn sicrhau bod y rhyngweithiadau'n synhwyrol ac yn gysurus i bobl. O ganlyniad, byddai'r grwpiau hyn yn fwy parod i gyfranogi mewn gweithgarwch ymgysylltu gyda sefydliad allanol neu unigolyn.

*Pobl y maent yn ymddiried ynddynt. Dyna pwy sydd fwyaf tebygol o'u hargyhoeddi. Gyda phobl ifanc, mae hynny'n golygu athrawon, gweithwyr ieuenctid, pobl y maent yn ymgysylltu'n frwd â hwy mewn ffordd gadarnhaol iawn. . . . Oherwydd egwyddorion gwaith ieuenctid er enghraifft, rwy'n meddwl ei fod yn gweddu mor dda a bod yn onest. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

*Ar bob cyfrif [byddai trwy ein sefydliad ni'n helpu] am ein bod ni'n un o'r mannau hynny lle mae pobl yn teimlo'n gysurus a lle mae pobl yn treulio amser. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

[17] Gweler Kahoot, platfform dysgu seiliedig ar gêm.

*Mae ganddynt weithredwyr cymunedol da iawn yn [x], nid gweithredaeth wleidyddol o anghenraid ond ceir pobl sy'n syml am wella'r gymuned ac maent hwy'n rhywun y byddent yn gwrando arnynt. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

6.31 Fe wnaeth rhai rhanddeiliaid amlygu pwysigrwydd strategaethau cymar-i-gymar ar gyfer gwella ymgysylltu hefyd. Roedd cyfranogwyr yn credu bod astudiaethau achos ac 'adrodd storïau' gyda phobl a oedd wedi ymgysylltu mewn rhyw ffordd yn weddol rymus hefyd. Eglurodd un rhanddeiliad sut yr oedd wedi recriwtio 'llysgenhadon ifanc' ar draws nifer fawr o ysgolion yng Nghymru a helpodd i hyrwyddo hawliau plant i'w cyfoedion.

*Sianeli pellach a awgrymwyd ar gyfer darparu gwybodaeth ac ymgysylltu*

6.32 Rhoddodd rhanddeiliaid enghreifftiau o: ffeithlenni a chanllawiau yr oeddent wedi'u cynhyrchu i helpu pobl i greu eu hymgyrchoedd eu hunain; gweithgareddau integreiddio ar gyfer gwladolion tramor; ffug orsafoedd pleidleisio i helpu i baratoi pobl ar gyfer y broses bleidleisio; gweithdai i rieni; atgyfeirio pobl at y wefan Simple Politics[18]; ac ymweliadau â'r Senedd. Fe awgrymwyd hysbysebion ar y radio ar gyfer pobl â nam ar eu golwg.

6.33 Cafodd taflenni eu hawgrymu weithiau ymhlith aelodau'r cyhoedd fel ffordd o'u cyrraedd, er enghraifft gydag esboniad eglur a gweledol ddeniadol sut y mae Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithio a'u perthynas â'i gilydd.

**Defnyddio unigolion uchel eu proffil i ymgysylltu**

6.34 Roedd rhai cyfranogwyr gwrywaidd 14-15 oed yn meddwl y gallent gael eu hysgogi i ymgysylltu gan unigolion uchel eu proffil drwy'r cyfryngau cymdeithasol, fel sêr o fyd y campau yng Nghymru ac o bosibl bandiau Cymreig. Hefyd, siaradodd pobl ifanc yn llawn edmygedd o bryd i'w gilydd am Greta Thunberg ac roeddent wedi ymuno â'r streiciau ysgolion[19].

*Fe wnaethom wers ar [Greta Thunberg] mewn gwyddoniaeth gyda'n hathrawes bioleg ac fe ddangosodd hi fideos i ni ohoni'n traddodi areithiau a dim ond yr un oedran â ni ydyw ac mae hi'n ceisio annog pobl i fynd ar streic*

---

[18] Gweler Simple politics. Ar adeg ysgrifennu, mae'r wefan hon yn darparu erthyglau am sut y caiff Llywodraeth yr Alban ei ffurfio a sut y caiff Llywodraeth Gogledd Iwerddon ei ffurfio. Ni fu'n bosibl dod o hyd i erthygl debyg am sut y caiff Llywodraeth Cymru ei ffurfio.

[19] Gweler School strike for the climate

*o'r ysgol gyda hi fel bod ei llais yn gallu cael ei glywed dros y byd i gyd. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, 14-15, Caerdydd)*

6.35 Fodd bynnag, nid oedd rhai pobl ifanc 16-17 oed yn meddwl y byddai'n teimlo'n hygred iawn bod rhywun uchel eu proffil yn eu hannog ei bleidleisio neu ymgysylltu, oni bai bod yr unigolyn wedi profi materion tebyg i'w rhai hwy. Yn hytrach, roedd ar rai pobl ifanc 18-24 oed eisiau clywed yn uniongyrchol gan wleidyddion ac ymgeiswyr.

6.36 Efallai y byddai gan unigolyn yn y gymuned leol rywfaint o ddylanwad fel model rôl, yn ôl rhai pobl ifanc. Siaradodd cyfranogwyr gwrywaidd 14-15 oed mewn un lleoliad am brosiect cymunedol a drefnwyd gan ymgyrchydd amgylcheddol a oedd wedi'i fwriadu i leihau'r plastig mewn afonydd[20]. Roedd y ffigwr a oedd yn amlwg yn lleol wedi siarad yn eu hysgol hefyd am ei waith, a oedd wedi bod yn brofiad diddorol iawn i'r bechgyn. Mewn achos arall, siaradodd cyfranogwyr benywaidd 16-17 oed mewn un lleoliad am y gwaith cymunedol yr oedd unigolyn yn ei wneud yn sector y celfyddydau. Fe siaradon nhw'n gadarnhaol iawn am yr unigolyn ac roeddent yn teimlo bod dylanwad ganddi.

*G: Maen nhw'n ceisio glanhau'r holl afonydd yng Nghymru. Mae e dros y cyfryngau cymdeithasol i gyd. G: Mae gwasanaeth yn cael ei gynnal, Mae e'n mynd i ysgolion. G: Mae'n mynd i siopau i arddangos posteri i ofyn i bobl ei wneud. Mae'n annog pobl i lanhau tarddiad yr afon Hafren ac yn y blaen. G: Mae e wir yn gwneud gwahaniaeth. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (14-15, Y Drenewydd)*

**Cynghorion ieithyddol gan gyfranogwyr**

6.37 Fe bwysleisiodd cyfranogwyr o blith y cyhoedd y dylai cynnwys ynglŷn â gwybodaeth wleidyddol ac ymgysylltu fod mor syml â phosibl. Mewn rhai achosion, roedd gwladolion tramor o'r farn y byddent yn croesawu effaith gynhwysol cynnwys a ddarperir yn eu hiaith eu hunain. Yr enghraifft a roddwyd oedd cael llythyr am ofal iechyd yn eu hiaith eu hunain a oedd wedi bod yn syrpreis ac wedi cael ei werthfawrogi'n fawr.


*Dwi'n meddwl dylai'r government siarad mwy fel iaith pobl normal. (Benyw, 25-44, DE, Caernarfon)*

[20] Gweler Sending a message in a bottle

*Rwy'n dod i ben â darllen Saesneg, ond byddwn yn hapusach pe bawn yn ei weld yn fy iaith fy hun hefyd [Groeg]. . . . Byddwn yn cymryd mwy o sylw a byddwn yn teimlo ei fod . . . yn fwy personol. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Benyw, gwladolyn tramor o un o wledydd yr UE, Wrecsam)*

Cynigiodd rhanddeiliaid nifer o gynghorion ynghylch cyfathrebu. O ran iaith, fe wnaethant awgrymu osgoi'r canlynol lle y bo'n bosibl :

**Ffigur 6.3: Awgrymiadau rhanddeiliaid ar gyfer ymadroddion i ystyried eu hosgoi**




* Roedd y rhanddeiliad hwn yn cyfeirio at y ffaith nad yw rhai pobl yn meddwl bod anabledd ganddynt.

6.38 Roedd awgrymiadau pellach gan randdeiliaid ynglŷn â chyfathrebu'n cynnwys y canlynol:

- Annog pobl ifanc i herio unrhyw jargon;
- Peidio byth â chymryd yn ganiataol beth yw lefelau gwybodaeth derbynyddion cyfathrebiadau a pheidio ag ofni cyflwyno gwybodaeth sy'n or-syml, yn sylfaenol ac wedi'i rhannu'n dameidiau llai;
- Defnyddio tôn cyfeillgar, anffurfiol ar gyfer rhai gwladolion tramor fel gwrthgyferbyniad â'u rhyngweithiadau â'r Swyddfa Gartref sy'n ffurfiol ac weithiau'n frawychus;
- Defnyddio termau fel 'cymuned', 'eich ardal leol', 'ble rydych yn byw', 'dweud eich dweud' ac iaith seiliedig ar sgiliau gyda phobl ifanc;

- Gweithio gyda phartneriaid fel Anabledd Dysgu Cymru[21] i wirio'r iaith a ddefnyddir.

  *Pe baem ni wedi hysbysebu 'dewch i'r digwyddiad hwn yr ydym yn ei gynnal ar ddemocratiaeth', dydw i ddim yn disgwyl y byddai'r bobl ifanc hynny wedi dod i'r digwyddiad o anghenraid. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

  *Fyddwn i ddim yn ei alw'n 'ddinasyddiaeth' neu'n 'ymgysylltu dinesig' i ddechrau. . . . Byddwn i'n dweud 'cymuned'. 'Eich ardal leol'. Mae 'newid' yn air da i'w ddefnyddio. Mae 'newid cadarnhaol' yn ymadrodd gwell. (Cyfieithiad o sylw a wnaed yn Saesneg) (Rhanddeiliad)*

[21] Gweler Anabledd dysgu Cymru

# 7. Casgliadau a goblygiadau

7.1 Mae'r casgliadau'n dechrau â sylwadau allweddol ynglŷn â thair o themâu amcanion yr ymchwil.

**Amcan – barn ynglŷn â phleidleisio mewn etholiadau:** y tebygolrwydd o gyfranogi mewn etholiadau yng Nghymru, dylanwad teulu a ffrindiau ar gyfranogi mewn etholiadau yng Nghymru a'r broses o gofrestru fel pleidleisiwr a dulliau cyfredol o fwrw pleidlais

**Amcan – gwybodaeth, dealltwriaeth a chynrychiolaeth:** gwybodaeth a dealltwriaeth am lywodraeth leol a sut y mae hyn yn cymharu â'u dealltwriaeth am wneud penderfyniadau ar lefelau Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU; y cyswllt rhwng pleidleisio mewn etholiadau lleol a phrosesau penderfynu sy'n effeithio ar faterion lleol; i ba raddau yr oedd cyfranogwyr yn teimlo bod eu barn yn cael ei chynrychioli gan ymgeiswyr yn etholiadau llywodraeth leol

**Amcan – ymgysylltu a chyfathrebu:** barn ynglŷn â sut orau i ymgysylltu a chyfathrebu gyda phleidleiswyr posibl i'w hannog a'u galluogi i bleidleisio a chyfranogi mewn democratiaeth yn fwy eang, ac i ddarparu gwybodaeth am y Llywodraeth ac ymgeiswyr

7.2 Mae'r prif rwystrau i bleidleisio'n gorgyffwrdd â rhwystrau i ymgysylltu dinesig ehangach. Gall y casgliadau a'r awgrymiadau a ddisgrifir yn y diagramau yn yr adran hon fod yn berthnasol i themâu a sianeli ymgysylltu a chyfathrebu ar y cyfan.

7.3 Un o'r casgliadau allweddol yw'r angen i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth am y pwnc a'i allu i beri dryswch. Mae'r ymchwil hefyd yn nodi datgysylltiad rhwng ymwybyddiaeth resymol o wasanaethau cynghorau lleol a gofalu am y gymuned ond dal i beidio â phleidleisio. Mae angen gwaith ar helpu pobl i wneud y cysylltiad hwnnw a gwella gwybodaeth am y modd y mae llywodraeth leol yn gweithio.


7.4 Mae'r diagram dros y dudalen yn amlygu sut y gellir mynd i'r afael â'r rhwystr hwn o ran gwybodaeth. Mae'r ymchwil yn canfod bod gan ysgolion a'r sector addysg rôl arwyddocaol yn hyn o beth trwy wreiddio addysg dinasyddiaeth a gwleidyddol yng nghwricwlwm newydd Cymru[22]. Mae hyn yn gyson â'r argymhelliad a wnaed gan y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad[23]. Mae'r ymchwil hefyd yn dod i'r casgliad bod angen ymgyrch codi ymwybyddiaeth uchel ei broffil ar gyfer y cyrhaeddiad eang sy'n ofynnol. **Dangosodd pobl ifanc, oedolion iau a oedd wedi ymddieithrio a gwladolion tramor fwy o botensial i newid eu canfyddiadau a'u hymddygiad na'r oedolion hyn a oedd wedi ymddieithrio.** Mae gwladolion

---

[22] Gweler Cwricwlwm Gymru

tramor nad ydynt yn gymwys yn gefnogol iawn ar y cyfan i'r syniad o bleidleisio mewn etholiadau lleol a byddent yn cael budd o gyfathrebiadau wedi'u targedu i wella'u gwybodaeth.

**Ffigur 7.1: Mynd i'r afael â rhwystr diffyg gwybodaeth a'r dryswch cysylltiedig**




7.5 Roedd proffil gwleidyddiaeth yng Nghymru'n isel gan mwyaf ymhlith cyfranogwyr yn yr ymchwil hon nad oeddent yn clywed unrhyw beth amdani yn y cyfryngau. Byddai ymchwil feintiol i ddefnyddio'r cyfryngau a ffynonellau gwybodaeth am faterion cyfoes yng Nghymru a fyddai'n adeiladu ar ddadansoddiad presennol yn helpu i daflu mwy o oleuni ar y mater hwn[24]. Gall gwrando cymdeithasol ar-lein a dadansoddi teimladau fod â rôl yn hyn hefyd[25].

7.6 Gall addysg helpu i herio canfyddiadau bod etholiadau a gwleidyddiaeth yn anneniadol ac yn ddiflas. Byddai negeseuon am newid, y dyfodol a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn teimlo'n berthnasol a gallent ddal sylw pobl.


[23] Gweler *Senedd sy'n Gweithio i Gymru, Adroddiad y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad* (2017),

[24] I gael enghreifftiau o ddadansoddiadau presennol o ddefnyddio'r cyfryngau a ffynonellau gwybodaeth am faterion cyfoes yng Nghymru, gweler Awan-Scully, R. (2017). *Why there is an accountability deficit in Welsh politics*, Prifysgol Caerdydd. a Cushion, S. a Scully, R. (2016). *British media is failing to give voters the full picture ahead of elections*, LSE.

[25] Gwrando cymdeithasol ar-lein yw'r broses o fonitro ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol sôn a sgyrsiau gan y cyhoedd am destun neu sefydliad. Mae dadansoddi teimladau'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i ddadansoddi data testun a dosbarthu barn.

Sicrhau bod gwleidyddiaeth yn teimlo’n berthnasol yw’r allwedd, ynghyd â gwneud y broses ymgysylltu’n bleserus ac yn hwyl i bobl ifanc. Roedd y rhwystr hwn yn llai o broblem gyda gwladolion tramor. Mae’r diagram isod yn crynhoi sut y gellir mynd i’r afael â’r rhwystr hwn.


**Ffigur 7.2: Mynd i’r afael â’r rhwystr bod etholiadau a gwleidyddiaeth yn anneniadol ac yn ddiflas**




7.7 Mae angen i’r canfyddiadau nad yw pleidleisio a chymryd rhan yn gwneud unrhyw wahaniaeth gael eu herio’n rhagweithiol. Pryd bynnag y mae barn y cyhoedd yn cael ei cheisio, mae angen gwarantau y bydd adborth ystyrlon yn cael ei ddarparu. Mae’r ymchwil hefyd yn dynodi bod angen mwy o waith i wanhau’r rhagfarn cadarnhad sy’n llywio’r sinigiaeth a ddangosir tuag at wleidyddion yn gyffredinol. Cam cychwynnol posibl fyddai codi proffil proses ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dysgu ohoni, gan ei bod yn cau’r ddolen adborth rhwng deisebwyr a gweithredu trwy bolisi[26]. Mae’r diagram dros y dudalen yn crynhoi sut y gellir mynd i’r afael â’r rhwystr hwn.

[26] Gweler Llinell amser deisebau. I gael enghraifft o weithredu trwy polisi o ganlyniad i ddeiseb, gweler P-05-817 Aelodau prosthetig arbenigol i blant

**Ffigur 7.3: Mynd i'r afael â'r rhwystrau bod pleidleisio neu chwarae rhan ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth a materion ymddiriedaeth**





7.8 Y prif rwystr terfynol i bleidleisio a chwarae rhan yw teimlo datgysylltiad oddi wrth y cyfan. Mae gwella'r wybodaeth sydd gan bobl a'r wybodaeth a ddarperir ar eu cyfer yn rhan annatod o'r ateb, ynghyd â:

- Dod i adnabod gwleidyddion lleol;
- Mwy o amrywiaeth ymhlith gwleidyddion / ymgeiswyr;
- Darparu ffyrdd rhwydd i bobl gael eu clywed;
- Gweld tystiolaeth o'r modd y mae ymgysylltu'n gwneud gwahaniaeth ar lefel leol;
- Negeseuon o gynwysoldeb.

7.9 Gall defnyddio hwb ymddygiadol prawf cymdeithasol fod â rhan i'w chwarae: gall pobl ymgysylltu â menter neu ymddygiad newid am eu bod yn darganfod bod eraill eisoes yn chwarae rhan. Gall proses ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu cynnwys astudiaeth achos defnyddiol ac egwyddorion arfer da i gefnogi ymdrechion mwy i ailgysylltu â phobl.

7.10 Fodd bynnag, mae’r lefelau ymddieithrio a ddangosir ymhlith cyfranogwyr hŷn yn awgrymu y gallai fod angen ymdrech anarferol o fawr i fynd i’r afael â dadrithiad o’r fath ar raddfa fawr. Mae’r diagram isod yn amlygu awgrymiadau ynghylch sut y gellir mynd i’r afael â’r rhwystr hwn.

**Ffigur 7.4: Mynd i’r afael â’r rhwystr bod pobl yn teimlo wedi’u datgysylltu**




7.11 Ni ddaeth y **broses bleidleisio** i’r amlwg fel rhwystr allweddol i bleidleisio ar y cyfan. Nodwyd materion mwy sylfaenol fel a ddisgrifir uchod y mae angen mynd i’r afael â hwy yn gyntaf. Serch hynny, roedd yn amlwg nad oedd cyfranogwyr iau a rhai gwladolion tramor yn teimlo’u bod yn barod i bleidleisio yn rhannol am nad oeddent yn gwybod sut i gofrestru a beth i’w wneud ar y diwrnod. Byddent felly’n cael budd o ymgyfarwyddo â’r agweddau hyn.

7.12 Nid oedd ‘gwleidyddiaeth’ i’w gweld fel pe bai’n cael ei thrafod rhyw lawer ymhlith cyfranogwyr a oedd wedi ymddieithrio a’u **teulu a ffrindiau**[27]. Yn ôl pob sôn roedd rhai sgyrsiau gartref am wleidyddiaeth yn cael effaith niweidiol ar ymgysylltu gan arwain at ddadleuon, dryswch a diflastod. Fodd bynnag, cyfeiriodd rhai cyfranogwyr iau a gwladolion tramor a oedd yn ymgysylltu’n fwy at ddylanwad cadarnhaol trafodaethau teuluol ar eu diddordeb yn y pwnc.

[27] Gweler Fieldhouse, E. a Cutts, D. (2012). *The companion effect: Household and local context and the turnout of young people*. The Journal of Politics, 74(3), t. 856-869.

7.13 Os caiff democratiaeth ac ymgysylltu dinesig eu hymgorffori yn y cwricwlwm newydd, efallai y ceir budd ychwanegol o ran pobl ifanc yn dylanwadu ar aelodau eu teulu ynglŷn â phwysigrwydd ymgysylltu yn y tymor hwy.

**Amcan – ymgysylltu dinesig ehangach:** i ba raddau yr oedd cyfranogwyr yn teimlo'u bod yn gallu ymgysylltu â dadleuon gwleidyddol a oedd yn effeithio ar eu hardal leol a Chymru'n ehangach; pwysigrwydd ymgysylltu cymunedol (e.e. gwirfoddoli) a mathau eraill o ymgysylltu gwleidyddol (e.e. deisebu, gorymdeithiau, ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol) a sut y mae hyn yn cymharu â phleidleisio mewn etholiadau.

7.14 Dengys yr ymchwil fod peth potensial ar gyfer mwy o ymgysylltu dinesig: mae gan gyfranogwyr feddwl mawr o'u cymunedau, maent yn llofnodi deisebau ac weithiau'n gwirfoddoli. Fodd bynnag, mae angen cymorth i helpu i wireddu'r potensial hwn. Mae angen sianeli sy'n glir, yn hygyrch ac yn cael eu hyrwyddo'n frwd ar gyfer codi mater a chwarae rhan. Mae angen sicrwydd hefyd bod barn pawb yn cael ei chroesawu ac y bydd yn cael gwrandawiad go iawn. Byddai mwy o ymgysylltu dinesig ar lefel leol iawn yn helpu i fod yn sail ar gyfer ymgysylltu dinesig ehangach ar lefel Cymru nad oedd yn ystyriaeth i'r cyfranogwyr hyn ar y cyfan. Er enghraifft, gellid defnyddio rheithgorau a chynulliadau dinasyddion yn fwy eang i helpu yn hyn o beth[28].

7.15 Roedd yr enghreifftiau o weithgarwch ymgysylltu perthnasol a ddarparwyd gan randdeiliaid yn aml yn llafur-ddwys ac yn tueddu i fod ar raddfa fach. Roedd rhanddeiliaid hefyd yn cydnabod her ymgysylltu democrataidd a dinesig ond yn canfod llwyddiant lle'r oedd perthnasoedd seiliedig ar ymddiriedaeth eisoes wedi cael eu ffurfio. Gyda'r cymorth cywir, mae rhanddeiliaid yn darparu sianel bwysig arall ar gyfer cyrraedd grwpiau sydd wedi ymddieithrio ac nad ydynt yn cael eu clywed. Byddai ymgysylltu'n cael ei wella gyda chynnwys cyfathrebu a ddatblygwyd o'r ymchwil hon yn cael ei rannu gyda rhanddeiliaid i'w rannu wedyn trwy eu platfformau a'u gweithgareddau hwy eu hunain.

[28] Gweler Cynulliad Dinasyddion cyntaf Cymru yn adrodd yn ôl

## Atodiad 1 – Y sampl cyfranogwyr a gyflawnwyd

| Sampl yr ymchwil | Manylion y sampl |
|---|---|
| **Pobl ifanc**: 4 grŵp ffocws gyda phobl ifanc 14-15 oed | 2 grŵp gyda chyfranogwyr benywaidd, 2 grŵp gyda chyfranogwyr gwrywaidd<br>Cymysgedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol ar draws y sampl<br>1 grŵp wedi'i gynnull trwy gyfrwng y Gymraeg<br>4 cyfranogwr o gefndir Du ac Ethnig Lleiafrifol (BAME) |
| **Pobl ifanc**: 4 grŵp ffocws gyda phobl ifanc 16-17 oed | 2 grŵp gyda chyfranogwyr benywaidd, 2 grŵp gyda chyfranogwyr gwrywaidd<br>2 grŵp gyda chyfranogwyr mewn addysg<br>2 grŵp gyda chyfranogwyr nad oeddent mewn addysg<br>Cymysgedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol ar draws y sampl<br>1 grŵp wedi'i gynnull trwy gyfrwng y Gymraeg<br>3 chyfranogwr o gefndir Du ac Ethnig Lleiafrifol (BAME) |
| **Oedolion a oedd wedi ymddieithrio**: 4 grŵp ffocws gyda phobl ifanc 18-24 oed | 2 grŵp ABC1, 2 grŵp C2DE<br>Cymysgedd o gyfranogwyr benywaidd a gwrywaidd ym mhob grŵp<br>2 grŵp wedi'u cynnull trwy gyfrwng y Gymraeg<br>1 cyfranogwr o gefndir Du ac Ethnig Lleiafrifol (BAME) |
| **Oedolion a oedd wedi ymddieithrio**: 4 grŵp ffocws gyda phobl 25+ oed | 2 x 25-44 oed, 2 x 45+ oed<br>4 grŵp DE<br>Cymysgedd o gyfranogwyr benywaidd a gwrywaidd ym mhob grŵp<br>1 grŵp wedi'i gynnull trwy gyfrwng y Gymraeg<br>4 cyfranogwr o gefndir Du ac Ethnig Lleiafrifol (BAME) |
| 28 o gyfranogwyr â **chenedligrwydd tramor** | Yn byw yng Nghymru ac yn bwriadu byw yng Nghymru hyd y gellir rhagweld<br>Roedd hyd eu harhosiad yng Nghymru'n amrywio o chwe mis i 25 mlynedd<br>15 o gyfranogwyr o un o wledydd yr UE neu'r Gymanwlad<br>1. o'r Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Yr Eidal, Gwlad Pwyl, Portiwgal, India, Rwmania, De Affrica, Sri Lanka, Tanzania<br>13 o gyfranogwyr o wledydd y tu allan i'r UE neu'r tu allan i'r Gymanwlad<br>2. o Tsieina, Chile, Iran, Irac, Y Traeth Ifori, Mecsico, Mongolia, Nepal |
| 12 **o randdeiliaid** | 7 cyfranogwr yn canolbwyntio ar bobl ifanc<br>2 cyfranogwr yn canolbwyntio bobl ag anabledd a nodweddion gwarchodedig<br>1 cyfranogwr yn canolbwyntio ar bobl economaidd anweithgar<br>1 cyfranogwr yn canolbwyntio ar gefnogi Sipsiwn a Theithwyr<br>1 cyfranogwr yn canolbwyntio ar gymunedau mudol |